Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Welsh Assembly Government

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Rhif: 04/2011

www.cymru.gov.uk

# Adolygiad o Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i Sefydliadau Seilwaith ar gyfer y Trydydd Sector

# Adolygiad o Gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i Sefydliadau Seilwaith ar gyfer y Trydydd Sector

# Adroddiad Terfynol

oldbell3

Research Policy Analysis
Ymchwil Polisi Dadansoddi

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, nad yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:


Siân Jones
Is-adran Ymchwil Gymdeithasol
Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Ffôn: (01685) 729126
E-bost: SJ&LGResearch&Information@wales.gsi.gov.uk
http://www.cymru.gov.uk/ymchwil



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011
ISBN: 978 0 7504 6007 1


© Hawlfraint y Goron 2011

## Tabl cynnwys


1 Cyflwyniad ........................................................................................... 1

2 Y Rhaglen Cyllid Craidd ..................................................................... 5

3 Canfyddiadau: Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ................................ 11

4 Canfyddiadau: Sefydliad Codi Arian Cymru ................................................ 34

5 Argymhellion ar drefniadau ariannu'r dyfodol ............................................. 52

# 1 Cyflwyniad

## Trosolwg

1.1 Comisiynwyd **Old Bell 3 Cyf.** ym mis Hydref 2010 i gynnal adolygiad graddfa fach o gyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydliadau seilwaith ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.

1.2 Ar hyn o bryd mae Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid craidd i ddau sefydliad seilwaith trydydd sector: y **Sefydliad Cymunedol yng Nghymru** a **Sefydliad Codi Arian Cymru** i gefnogi datblygiad y trydydd sector fel yr amlinellwyd mewn dogfennau strategol diweddar yn cyfeirio at y sector.

1.3 Sefydliad Codi Arian Cymru (IoFC) yw'r corff aelodaeth proffesiynol ar gyfer codwyr arian yng Nghymru. Ei genhadaeth yw cefnogi codwyr arian, drwy arweinyddiaeth, cynrychiolaeth, gosod safonau ac addysg, ac mae'n hyrwyddo ac yn hybu codi arian fel dewis gyrfa. Mae'r gwasanaeth a gynigir gan y Sefydliad yn galluogi elusennau, grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol eraill i ddynodi ffynonellau newydd o gefnogaeth a hefyd ddod yn fwy cynaliadwy a llai dibynnol ar grantiau.

1.4 Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (CFiW) yn elusen annibynnol a sefydlwyd i roi ffynhonnell barhaol o gyllid ar gyfer prosiectau cymunedol yng Nghymru. Caiff grantiau eu hariannu drwy gyfraniadau gan unigolion preifat, busnesau, ymddiriedolaethau elusennol eraill, a thrwy incwm o'r cronfeydd gwaddol a ddalir gan CFiW. Mae'r CFiW yn darparu gwasanaeth dyfarnu grantiau a rheoli cronfa i roddwyr, gan eu helpu i fanteisio i'r eithaf o'u rhoi elusennol ac uchafu ei effaith. Yn y ffordd hon mae'r CFiW yn helpu i baru 'rhoddwyr grantiau' gyda 'defnyddwyr grantiau'.

1.5 Dechreuodd y rhaglen cyllid craidd bresennol ym mis Ebrill 2008 ac mae i orffen ym mis Mawrth 2011. Bydd y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn

cefnogi gwneuthurwyr penderfyniadau yn eu trafodaethau ar drefniadau posibl ar gyfer cyllid yn y dyfodol.

**Nod yr Ymchwil**

1.6 Nod pennaf y gwaith hwn fel yr amlinellwyd yn y fanyleb yw ***“adolygu addasrwydd trefniadau cyllid craidd presennol wrth ddarparu cefnogaeth seilwaith i’r trydydd sector”.***

1.7 Mae manyleb yr adolygiad yn cynnwys chwe amcan penodol sef:

1. Adolygu’r rhesymeg bresennol a pharhaus ar gyfer ariannu’r sefydliadau a enwir;
2. Adolygu llwyddiant y sefydliadau a ariannir wrth gyflawni’r amcanion a gytunwyd;
3. Adolygu swm a ffyonnellau cyllid a sicrhaodd pob un o’r sefydliadau yn ychwanegol at gyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi eu gwaith;
4. Ffurfio barn ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithgaredd a ariannir gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn y sefydliadau a enwir wrth gyfrannu at waith ehangach Llywodraeth y Cynulliad o fewn y maes polisi;
5. Dynodi enghreifftiau o arfer da neu fel arall yn narpariaeth gwaith y sefydliadau a ariannir;
6. Gwneud argymhellion ar y trefniadau cyllid ar gyfer cefnogaeth seilwaith yn y dyfodol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil ac ystyriaeth opsiynau cyllid yn cynnwys caffaeliad gwasanaethau ar gontract.

**Dull Ymchwil**

1.8 Mae’r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar adolygiad graddfa fach. Nid oedd cwmpas yr ymchwil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygu’r cyd-destun polisi. Mewn rhai ffyrdd, mae hyn yn cyfyngu i ba raddau y medrid dadansoddi’r rhesymeg barhaus am y cyllid craidd. Ymhellach, nid oedd yr adnoddau oedd ar gael ond yn caniatáu sylw cyfyngedig i gasglu data sylfaenol gan randdeiliaid allweddol y rhaglenni yn cynnwys sefydliadau

buddiolwyr. Mae rhai o'r canfyddiadau felly'n seiliedig ar wybodaeth eilaidd a gafwyd gan y CFiW a'r IoFC (e.e. arolygon boddhad, gwerthusiadau cwrs).

1.9 Serch hynny, mae'r rhaglen waith ar gyfer yr adolygiad hwn wedi cynnwys y camau dilynol:

- Adolygu dogfennau gweinyddol cefndir oedd ar gael yn cynnwys: ceisiadau am gyllid craidd, adroddiadau monitro a chofnodion cysylltiedig cyfarfodydd a gynhaliwyd;
- Cyfweliadau gyda hysbyswyr allweddol, yn cynnwys:
  - o Cyfweliad lled-strwythuredig wyneb i wyneb gyda'r Rheolwr Prosiect Cyllid Craidd Seilwaith yn Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  - o Cyfweliadau lled-strwythuredig wyneb i wyneb gyda Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion y ddau sefydliad sy'n derbyn cyllid craidd yng Nghymru;
  - o Cyfweliad ffôn lled-strwythuredig gyda Chyfarwyddwr Polisi ac Ymgyrchoedd Sefydliad Codi Arian (y Deyrnas Unedig) a chyfweliad wyneb i wyneb gyda Phrif Weithredwr y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol (rhwydwaith y Deyrnas Unedig ar gyfer Sefydliadau Cymunedol);
- Cyfweliadau wyneb i wyneb neu ffôn lled-strwythuredig gyda:
  - o Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fel sefydliad rhanddeiliad a all roi sylw ar waith y ddau sefydliad;
  - o Tri sefydliad yn derbyn cefnogaeth gan yr IoFC a dau sefydliad yn derbyn cefnogaeth gan y CFiW drwy'r rhaglen cyllid craidd.
- Casglu ac adolygu deunydd monitro a gwerthuso perthnasol arall sydd gan y ddau sefydliad sy'n derbyn cyllid craidd.

**Strwythur yr Adroddiad**

1.10 Yng ngweddill yr adroddiad hwn, rhoddwn fanylion cefndir byr ar y rhaglen cyllid craidd seilwaith a'r ddau sefydliad sy'n derbyn cyllid craidd (**Adran 2).** Yn nesaf, cyflwynwn ganfyddiadau'r ymchwil i waith cyllid craidd y CFiW (**Adran 3).** Yna

trown ein sylw at ganfyddiadau ar waith cyllid craidd yr IoFC (**Adran 4).** Yn olaf, cyflwynwn ein casgliadau ac argymhellion **(Adran 5).**

# 2 Y Rhaglen Cyllid Craidd

## Trosolwg

2.1 Yn yr adran hon rhoddwn fanylion cefndir byr ar y CFiW, yr IoFC a'r rhaglen cyllid craidd Seilwaith.

2.2 Mae'n werth nodi, yn y bôn, fod y rhaglen cyllid craidd bresennol yn parhau (ac yn ehangu) cefnogaeth cyllid seilwaith yr oedd Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn ei ddarparu i CFiW a'r IoFC. Ymhellach, bu'r gofyniad i CFiW a'r IoFC gydweithio gyda sefydliadau cefnogaeth arall yng Nghymru yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn elfen hanfodol o'r cyllid craidd presennol.

## Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (CFiW)

*Trosolwg*

2.3 Bu sefydliadau cymunedol ar waith yn y Deyrnas Unedig ers y 1980au. Ar hyn o bryd mae rhwydwaith o 58 sefydliad, gyda'r CFiW yn un ohonynt. Diben Sefydliadau Cymunedol yw darparu gwasanaeth rhoi grantiau a rheoli cronfeydd i'w rhoddwyr a dosbarthu grantiau i grwpiau cymunedol a sefydliadau gwirfoddol ledled y DU. Cyflawnant hyn drwy gronfeydd 'effaith ar unwaith' (cronfeydd gan roddwyr ar gyfer 'rhoi' ar unwaith) a thaliadau i grwpiau trydydd sector o daliadau llog ar gronfeydd gwaddol sydd wedi crynhoi. Wrth reoli'r broses hon, mae sefydliadau cymunedol fel arfer yn codi ffioedd canran yn seiliedig ar faint y gronfa 'effaith ar unwaith' neu gronfa waddol.

2.4 Mae'r sefydliadau yn elusennau annibynnol yn gysylltiedig drwy aelodaeth o'r Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol (CFN) sy'n gweithredu megis swyddfa ganolog gan roi pwynt cyswllt ar gyfer y rhwydwaith, arwain ar ddatblygiad polisi, cydlynu â'r llywodraeth yn ogystal â lledaenu ymchwil ac arfer da ymysg pethau eraill.

2.5 Mae’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn nodweddiadol o sefydliadau cymunedol mewn mannau eraill o ran y gwasanaethau craidd y mae’n eu darparu. Fodd bynnag, yn hanesyddol bu agweddau at ariannu sefydliadau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig yn amlwg wahanol. Yn Lloegr mae sefydliadau cymunedol yn cwmpasu siroedd, dinasoedd mawr ac ardaloedd trefol. Fel arfer bydd Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn gleientiaid i sefydliadau cymunedol yn Lloegr. Yng Nghymru, mae ffocws y CFiW ar y sector preifat yn unig. Ymhellach, yn y degawd diwethaf mae sefydliadau cymunedol yn Lloegr wedi mwynhau cyllid cymharol hael gan y llywodraeth yn cynnwys ‘Matched Challenge’, cynllun yn gweithredu yn 2002 lle rhoddai’r llywodraeth arian cyfatebol i unrhyw waddol a sicrhawyd gan sefydliad cymunedol.

2.6 Fel yng Nghymru, dim ond un sefydliad cymunedol sydd yn yr Alban a gefnogir drwy gefnogaeth grant uniongyrchol gan Lywodraeth yr Alban. Yn dilyn arweiniad Cymru, dull yr Alban fu datblygu cronfeydd seiliedig ar ardal yn hytrach na sefydliadau cymunedol i sicrhau gorchudd ar draws yr Alban.[1]

2.7 Mae dau sefydliad cymunedol yng Ngogledd Iwerddon: Community Foundation Northern Ireland ac, am resymau hanesyddol, sefydliad cymunedol ar wahân ar gyfer swydd Fermanagh. Yn yr un modd â Community Foundation Scotland, mae’r sefydliadau yng Ngogledd Iwerddon yn llawer mwy na’r CFiW, yn hŷn ac wedi ennill eu plwyf – yn bennaf drwy gefnogaeth ariannol gan y llywodraeth dros flynyddoedd lawer.

*Cefnogaeth Cyllid Craidd CFiW*

2.8 Yn 2007/08 derbyniodd CFiW gyllid o £30,447 gan Lywodraeth Cyllid Cymru drwy’r Cynllun Grant Cefnogaeth ar gyfer Gwasanaethau Canolwr Gwirfoddol

[1] Mae cronfeydd seiliedig ar ardal yn rhoi cyfle i unigolion, busnesau ac eraill i gyfrannu at gronfa waddol a ddefnyddir i gefnogi gweithgareddau trydydd sector mewn ardal benodol. Fel arfer caiff y rhain eu gweinyddu drwy Banel gwirfoddol lleol gan felly arbed costau gweithredu swyddfa ffurfiol sefydliad cymunedol.

(SVIS), a weinyddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ran y Cynulliad. Ym mis Rhagfyr 2007, derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad gynnig 3-blynedd gan CFiW am fwy o gyllid craidd i'w alluogi i barhau a datblygu ei waith drwy:

- Cefnogi costau craidd y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru;
- Galluogi'r Sefydliad i sicrhau ei dîm staff (o bedwar), sefydlu Prif Weithredwr cyflogedig llawn-amser, a chynyddu'r cyfleoedd y mae wedi eu dynodi a'u treialu;
- Uchafu eu gallu i gael mynediad a chreu cronfeydd dyngarwch a chorfforaethol;
- Datblygu dyngarwch a chynyddu cronfeydd i'r gymuned a'r sector gwirfoddol yng Nghymru a chefnogi'r trydydd sector yng Nghymru i ffynnu.

2.9 Ym mis Ionawr 2008 dyfarnwyd cyllid craidd Seilwaith i CFiW gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfanswm o £60,000 yn 2008/09, £61,500 yn 2009/10 a £63,037 yn 2010/11. Rhagwelid y byddai CEiW yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi grwpiau trydydd sector yng Nghymru drwy ymysg pethau eraill:

- Cyfateb rhoddwyr (unigolion, busnesau ac ymddiriedolaethau ac eraill) gyda 'gweithredwyr' (grwpiau trydydd sector);
- Darparu gwasanaeth busnes i roddwyr drwy reoli'r broses dyfarnu cyllid;
- Creu cronfeydd newydd seiliedig ar ardal;
- Gweithio gyda'r Comisiwn Elusennau i gysylltu ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i'w hannog i gyfuno eu hymddiriedolaethau elusennol gwneud grant segur neu anweithgar mewn Cronfa Gwaddol a gedwir yn y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru;
- Cadarnhau ei sefyllfa fel 'Dewis Cyntaf Dyngarwch yng Nghymru'.

2.10 Yn 2008/09 bu'r CFiW hefyd yn llwyddiannus yn cael grant o £60,000 gan Sefydliad Waterloo.

**Sefydliad Codi Arian Cymru**

*Trosolwg*

2.11 Sefydliad Codi Arian Cymru (IoFC) yw’r corff aelodaeth proffesiynol ar gyfer codwyr arian yng Nghymru. Ei genhadaeth yw cefnogi codwyr arian, drwy arweinyddiaeth, cynrychiolaeth, gosod safonau ac addysg ac mae’n hyrwyddo ac yn hybu codi arian fel dewis gyrfa.

2.12 Mae’r IoFC yn un o nifer o grwpiau cynrychioladol rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer y Sefydliad Codi Arian yn y Deyrnas Unedig (IoFUK). Datblygwyd yr IoFUK yn wreiddiol fel Sefydliad Rheolwyr Elusennau fwy na 25 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, erbyn troad y ganrif, arweiniodd pryder am gamweithredu mewn codi arian ar draws y Deyrnas Unedig at ffurfio’r Sefydliad Codi Arian. Ers hynny tyfodd yr IoFUK i fod â mwy na 5,000 o aelodau unigol ar draws y DU. Mae mwy na 315 o sefydliadau a phob un o’r 20 elusen fwyaf yn y DU yn aelodau.

2.13 Amcanion strategol y Sefydliad yw:

- Datblygu a chynyddu aelodaeth;
- Hyrwyddo a hybu codi arian;
- Gosod safonau a hyrwyddo arfer gorau;
- Cefnogi, datblygu a meithrin effeithlonrwydd pob codwr arian;
- Dechrau, rhoi adnoddau, datblygu a hyrwyddo cynnyrch a thechnegau newydd i godi arian.

2.14 Ar lefel y Deyrnas Unedig bu’r IoFUK yn gweithio’n ddiweddar gyda’r Swyddfa Cymdeithas Sifil a Thrysorlys y Deyrnas Unedig ar faterion yn ymwneud â chodi arian i elusennau, yn cynnwys Cymorth Rhodd a dulliau eraill o roi effeithiol o ran treth.

2.15 Bu’r IoFUK hefyd yn ganolog wrth sefydlu a chyflawni’r system hunanreoleiddio sy’n gweithredu ym maes codi arian yn y Deyrnas Unedig. Creodd y Sefydliad y

Bwrdd Safonau Codi Arian (FSB) fel asiantaeth ar gyfer gweinyddu'r broses reoleiddio. Mae'r FSB yn gyfrifol am ddatblygu a diweddaru'r Codau Ymarfer sy'n cynrychioli'r fframwaith rheoleiddio a gytunwyd yn ogystal ag arferion gorau cysylltiedig y mae'r sector yn gweithredu wrthynt. Mae'r Codau hyn yn cynnwys y gwahanol ddulliau o godi arian yn amrywio o ddulliau traddodiadol (wyneb i wyneb, nawdd, digwyddiadau ac yn y blaen) i'r dulliau diweddaraf megis defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar-lein.

2.16 Mae'r IoFUK yn gweithredu drwy gyfres o bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ynghyd â grwpiau diddordeb arbennig ar bynciau megis codi arian gan ymddiriedolaethau a thechnoleg mewn codi arian. Mae gwahanol gyd-destunau economaidd-gymdeithasol, llywodraethu a thrydydd sector ar draws rhanbarthau'r Deyrnas Unedig yn sylfaen i ddewis dull datganoledig.

*Sefydliad Codi Arian Cymru*

2.17 Yn y cefndir yma y gwnaeth Sefydliad Codi Arian Cymru (IoFC) gais llwyddiannus i Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyfanswm o £45,850 i gynnal prosiect peilot yng Nghymru.

2.18 Yn dilyn llwyddiant tybiedig y prosiect peilot, dyfarnwyd cyfanswm o £90,750 i'r IoFC rhwng 2004 a 2007 dan Fenter y Gymdeithas Fyw ac yn 2007/08 derbyniodd £35,000 arall dan Gronfa Cefnogi Seilwaith Llywodraeth y Cynulliad. Ymhellach, sicrhaodd yr IoFC gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad i gyflwyno gweithdai ar 'Rhoi Effeithiol o ran Treth' mewn partneriaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cyfeiriwyd y cyllid hwn drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac roedd yn gyfanswm o £10,000 ym mlwyddyn ariannol 2007/08. Mewn blynyddoedd dilynol cododd i £10,250 y flwyddyn ac fe'i talir yn ychwanegol at gyllid craidd presennol Llywodraeth y Cynulliad.

2.19 Ym mis Ionawr 2008, dyfarnwyd cyllid o £44,800 i'r IoFC ar gyfer 2008-2009, £45,660 ar gyfer 2009-2010 a £46,705 ar gyfer 2010-11. Roedd y cyllid yn seiliedig ar feysydd allweddol lle credai Llywodraeth y Cynulliad y medrai'r IoFC ychwanegu gwerth yng Nghymru yn cynnwys: dehongli'r Codau Ymarfer Codi Arian, cyfleoedd yn sgil y Ddeddf Elusennau i ddenu cefnogaeth cyllid newydd i Gymru; hyfforddiant, cyngor, arbenigedd ac eraill.

2.20 Mae'r cyllid craidd a ddarparwyd gan gronfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu Rheolwr Rhanbarthol (3 diwrnod yr wythnos) a gweinyddydd (boreau yn unig) a'r gorbenion cysylltiedig yn cynnwys swyddfa yn Heol y Gadeirlan, Caerdydd. Yn ychwanegol, mae cyllid craidd yn talu am gostau cynadleddau, digwyddiadau hyfforddi a seminarau. Caiff y staff craidd yng Nghymru eu cefnogi gan bwyllgor gyda chynrychiolaeth eang - o elusennau seiliedig yng Nghymru (mawr a bach), canghennau Cymru elusennau sy'n gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig a rhanddeiliaid eraill. Er bod yr IoFC yn gorff aelodaeth, rhagwelid y defnyddid cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi aelodau a rhai heb fod yn aelodau fel ei gilydd drwy ymysg pethau eraill:

- Hyfforddiant, seminarau a digwyddiadau rhwydwaith;
- Hyfforddiant ardystiedig mewn codi arian a ddatblygwyd gan yr IF ond sydd bellach ar gael yng Nghymru;
- Dwy gynhadledd y flwyddyn, yng Ngogledd a De Cymru;
- E-gylchlythyrau a gwybodaeth a gyflwynir ar wefan IF;
- Lledaenu Codau Ymarfer, ymgynghori ar Godau newydd ac arfer gorau;
- Cynllun Iaith Gymraeg a ddatblygwyd mewn cysylltiad gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Cyngor ad hoc i godwyr arian a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

# 3 Canfyddiadau: Y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru

3.1 Yn yr adran hon ystyriwn ganfyddiadau gwaith cyllid craidd y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (CFiW). Eto mae'n rhaid pwysleisio fod y canfyddiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar adolygiad graddfa fach. Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda hysbyswyr a budd-ddeiliaid allweddol ac adolygiad o ddata monitro a gwerthuso a gedwir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r CFiW. Cyflwynir y canfyddiadau dan benawdau sy'n cyfeirio at amcanion allweddol yr ymchwil.

**Rhesymeg bresennol a pharhaus**

3.2 Credai'r holl rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld fod y penderfyniad i ddyfarnu cyllid craidd i CFiW ar gyfer cefnogaeth seilwaith yng Nghymru yn addas. Soniodd y rhanddeiliaid am rôl unigryw y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru: *"does dim unrhyw sefydliad arall yng Nghymru yn cyflawni'r gwasanaeth penodol a gynigir gan CFiW".*

3.3 Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth glir fod llawer wedi newid ers dyfarnu cyllid craidd yn 2008, a ddyblodd gyllid, er o sylfaen isel, gyda'r sawl a gyfwelwyd yn ymwybodol iawn fod Llywodraeth y Cynulliad yn wynebu toriadau na welwyd eu tebyg i wariant ar draws pob adran. Nododd rhai bod y cyd-destun economaidd yn ymarferol yn *"codi'r bar"* ar gyfer cyllid yn y dyfodol, ac y byddai perfformiad cymharol yn awr yn cael ei *"farnu'n fwy trylwyr."*

3.4 Eto credai'r CFiW ei hunan ac, yn bwysicaf, y rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod trafferthion diweddar wedi cynyddu ac nid gostwng yr angen am gefnogaeth barhaus. Roedd cydnabyddiaeth fod y cefndir o doriadau mewn cyllid sector cyhoeddus a 'bregusrwydd' cyllid yn golygu ei bod yn debygol y byddai cyllid Llywodraeth y Cynulliad i'r trydydd sector yng Nghymru yn gostwng ac y byddai hynny yn ei dro yn cynyddu'r angen i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gael

grantiau dyngarol bach. Teimlid mai'r ffordd orau o ddiwallu'r angen hwn oedd *"drwy gefnogaeth sefydliad seilwaith arbenigol."*[2]

3.5 Ymhellach, credai CFiW fod llawer o'r ffactorau oedd yn ffurfio'r rhesymeg am y cyllid craidd presennol yn parhau'n ddilys, yn cynnwys:

Annibyniaeth model y Sefydliad Cymunedol a'i apêl ddilynol i ymddiriedolaethau annibynnol dyfarnu grantiau a dyngarwyr (pwysleisiodd y CFiW fod rhoddwyr unigol yn tueddu i ddewis peidio rhoi i sefydliadau llywodraeth neu sefydliadau a noddir gan y llywodraeth);

Model profedig ar gyfer ysgogi cyllid sector preifat ar gyfer budd y gymuned;

Mynediad i rwydwaith ar draws y Deyrnas Unedig o gynlluniau dyfarnu grantiau, megis Fair Share a Sport Relief;

Tystiolaeth anecdotaidd fod sefydliadau dyfarnu grantiau yn y Deyrnas Unedig yn dweud ei bod yn ei chael yn anodd dosbarthu cronfeydd yng Nghymru;

Y gefnogaeth a roddir gan CFiW i waith sefydliadau ac asiantaethau megis y Comisiwn Elusennau yng Nghymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, y Sefydliad Codi Arian ac eraill.

3.6 Soniodd rhai hysbyswyr allweddol fod y cyd-destun polisi ehangach yn cefnogi'r farn hon.[3] Yn neilltuol y pwyslais sy'n *"dal i fod yn berthnasol"* yn *Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol* ar amrywio incwm yn defnyddio dulliau blaengar; cynyddu incwm i'r trydydd sector drwy, er enghraifft, godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ddulliau effeithiol o ran treth; cydweithio gyda'r sector preifat i wella ei gyfraniad i adeiladu'r trydydd sector drwy gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol; a chydweithio gyda gwasanaethau'n ehangach i gryfhau'r gwasanaethau cefnogaeth trydydd sector sydd ar gael yng Nghymru.

3.7 Ymhellach, cawsom ein cyfeirio at bapur diweddar gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn rhybuddio am

[2] 1e. Dyfyniad o gyfweliad
[3] Nid oedd cwmpas yr ymchwil yn caniatau adolygiad cynhwysfawr o ddeunydd polisi..

beryglon methu amrywio a chreu ffrydiau cyllid cynaliadwy.[4] Fel y dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd: *"bu llawer o siarad am adeiladu gwaddol yng Nghymru. Roedd y papur Paradigm yn cydnabod yn eglur werth adeiladu gwaddol. Fe'i trafodwyd hefyd yn y gynhadledd Cyllid y bu'r Tywysog Charles ynddi. Nid yw'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn dda yng Nghymru, ar draws y sectorau"* Nodwyd yr awgrym yn y papur Paradigm y dylai cyllid refeniw fod ar gael i sefydliadau unigol fel gwaddol yn hytrach nag fel grant blynyddol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r sawl a gyfwelwyd fod hyn yn annhebygol gan fod natur rhag blaen y cynnig hwnnw bron yn sicr yn ei eithrio o'r trafodaethau presennol o gofio am gyd-destun toriadau sector cyhoeddus. Yn fwy tebygol (*"ac yn fwy addas")* awgryment oedd cymysgedd o ddulliau refeniw, cyfalaf, benthyciad a gwaddol.

3.8 Roedd rhai hysbyswyr allweddol hefyd wedi eu calonogi gan y pwyslais yn nogfen fwy diweddar Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd i'r angen i newid o gefnogaeth gyffredinol i ddull gweithredu gyda mwy o ffocws. Yn neilltuol ystyriwyd bod yr iaith a ddefnyddid - e.e. 'cwmnïau angor', 'diwylliant buddsoddi'[5] - yn cyd-fynd yn gysurus gydag uchelgais hirdymor CFiW: *"Gyda'r toriadau cyllid, medrai gwneuthurwyr penderfyniadau fod dan bwysau i gynnal gwasanaethau presennol yn hytrach nag ystyried elw tymor hwy o fuddsoddiad. Ac iawn hynny. Ond beth am ystyried y ddau drwy ganolbwyntio ar ddarparwyr gwasanaeth presennol gyda chynlluniau cynaliadwyedd hirdymor sydd wedi eu hystyried yn dda?"*

3.9 Wrth gwrs, mae'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi hefyd yn hybu gostyngiad mewn *"cymorth un-i-un"* uniongyrchol ar gyfer busnesau o blaid *"creu gofod"* ar gyfer dulliau cymorth sector cyhoeddus. Mae hefyd yn awgrymu, er y bydd y Llywodraeth *"yn dal i fod â rôl o ddarparu gwybodaeth i fusnesau",* fod hyn yn debygol o ganolbwyntio mwy ar *"gynnwys arlein"*[6] yn y dyfodol.

---

[4] The Political Economy of Funding the Third Sector in Wales: Towards a New Paradigm? WCVA, 2008, p. 4
[5] Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (Gorffennaf 2010), t38
[6] ERP. Tudalen 44.

3.10 Ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r Gymdeithas Fawr yn gwneud ymrwymiad ffurfiol i ddatblygiad y trydydd sector. Yng ngoleuni toriadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyllid cyhoeddus; wrth gwrs rhaid aros i weld i ba raddau y gall yr ymrwymiadau hyn gael eu gweithredu. Serch hynny bydd cysyniadau megis Banc y Gymdeithas Fawr - y talir amdano gyda chronfeydd o gyfrifon banc segur - o fudd mawr i elusennau, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymdogaeth ac eraill yng Nghymru sy'n ceisio cyllid. Fodd bynnag, y farn gyffredinol gan y rhai a gyfwelwyd oedd bod angen i ddatblygiadau o'r fath gael eu dehongli a'u hesbonio i elusennau yng Nghymru a bod CFiW mewn lle da i gyfrannu yn y cyswllt hwn drwy fod â'i wreiddiau yng Nghymru ond yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig.

**Llwyddiant wrth sicrhau targedau a gytunwyd**

*Trosolwg*

3.11 Roedd yn ofynnol i CFiW gyflawni nifer o dargedau a gytunwyd yng nghyswllt eu gwaith cyllid craidd. Yn yr adran hon ystyriwn y cynnydd a wnaed yn y cyswllt hwn. Dylid nodi y cafodd cynnydd ei fonitro ar dargedau a gytunwyd drwy adroddiadau cynnydd chwe misol a chyfarfodydd cysylltiedig wyneb i wyneb rhwng staff o Lywodraeth y Cynulliad a CFiW. Ni chafodd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adran hon eu dilysu'n annibynnol gan y tîm ymchwil, er y gwyddom fod dilysu ffurfiol yn rhan o'r broses fonitro a gytunwyd gan Lywodraeth y Cynulliad.

*Amcanion*

3.12 Roedd yr amcanion a gytunwyd ar gyfer y rhaglen ariannu craidd yn ei gwneud yn ofynnol i CFiW:

Gynyddu eu cronfeydd gwaddol o £1 miliwn i £2 filiwn erbyn mis Mawrth 2011;

Parhau i ddyfarnu £1 miliwn o grantiau bob blwyddyn gyda £0.5 miliwn ychwanegol hefyd yn cael ei ddosbarthu dros y tair blynedd;

Sicrhau sefyllfa o arwain mewn dyngarwch yng Nghymru.

3.13 Mae gohebiaeth adeg cytuno'r amcanion hyn yn dangos fod gan Lywodraeth y Cynulliad ddiddordeb neilltuol mewn 'cynyddu'r gronfa waddol i £2 filiwn' ac yn gyffredinol, symudiadau at i CFiW ddod yn fwy hunangynhaliol.

3.14 Soniodd y sawl a gyfwelwyd o CFiW am ba mor addas oedd yr amcanion wrth roi *"lle i ni gyflawni'r amcanion yn y ffordd y credem oedd orau".* Er hyn, medrid bod wedi cynnwys is-amcanion mwy manwl: *"Fe wnaethom gynnwys rhai mesurau mwy manwl yn anffurfiol, fel ffordd o lywio ein dull gweithredu, yn gymaint â dim arall. Mae bob amser angen cydbwysedd rhwng y rhoddwr yn cael yr hyn maent ei eisiau a bod yn rhy feichus."*

3.15 Cafodd y targedau eu gosod *"i fod yn heriol"* gan gyfeirio at berfformiad blaenorol, y sefyllfa bresennol (bryd hynny) a'r *"hyn oedd yn yr arfaeth a mwy".* Yn ymarferol roedd rhai amheuon am faint y dasg: *"Roedd codi'r gwaddol o £1 i £2m yn edrych yn rhy uchelgeisiol i mi ar un amser, yn syml oherwydd y byddai llawer o hynny'n golygu gweithio gydag ymddiriedolaethau elusennol, ac mae nhw'n cymryd am byth i wneud penderfyniadau."*

*Cyflawniad*

3.16 Er y pryderon hyn, mae'r data monitro diweddaraf gan CFiW yn dangos y rhagorwyd cryn dipyn ar bob targed. Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r canlyniadau allweddol. Mae'r ffigur yn dangos perfformiad cryf ar dargedau allweddol y cronfeydd gwaddol mewn stiwardiaeth a grantiau ychwanegol a ddosbarthwyd.

3.17 Mae'n amlwg fod y perfformiad a gyflwynir yn Ffigur 1 yn cymharu'n ffafriol gyda data cyffelyb arall o fewn y sector. Dengys data a gafwyd gan sefydliad ymbarel y Rhwydwaith Sefydliadau Cymunedol fod cyfanswm gwaddoliadau Sefydliadau Cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig wedi dyblu dros y pedair blynedd

ddiwethaf. Er bod hyn yn ganlyniad da, nid yw cystal â'r cynnydd o 450%[7] ar gyfer Sefydliadau Cymunedol yng Nghymru dros y tair blynedd ddiwethaf.

**Ffigur 1 1: Perfformiad ar dargedau ariannu craidd**

| Disgrifiad | Targed | Cyflawnwyd erbyn Tachwedd 2010 | Alldro Terfynol a Ddisgwylir |
|---|---|---|---|
| Cronfeydd gwaddol mewn stiwardiaeth | Cynyddu o £1 miliwn i £2 miliwn | Cynyddu i £5.5 miliwn | Cynyddu i £5.5 miliwn |
| Grantiau a ddosbarthwyd | 2008/09 - £1.0 miliwn<br>2009/10 - £1.0 miliwn<br>20010/11 - £1.0 miliwn<br>Ychwanegol - £0.5 miliwn | 2008/09 - £1.2 miliwn<br>2009/10 - £1.6 miliwn<br>2010/11 - £1.4 miliwn<br>Ychwanegol - £1.2 miliwn | 2008/09 - £1.2 miliwn<br>2009/10 - £1.6 miliwn<br>20010/11 - £1.4 miliwn<br>Ychwanegol - £1.2 miliwn |
| Arweinyddiaeth mewn Dyngarwch | Cyflenwi digwyddiadau, sylw yn y wasg a datblygu partneriaethau | Pedwar digwyddiad dyngarwch (siaradwyr amlwg);<br>Cyflawni dwy set o broffiliau cyfryngau;<br>Partneriaethau newydd gyda Rathbones, Geldards, Alchemy Wealth a Cheviot | Lleoli Sefydliad Cymunedol yng Nghymru fel 'y' lle ar gyfer dyngarwch yng Nghymru. Lansio cronfa i Gymru a localgiving.com |

Ffynhonnell: Cofnodion monitro Sefydliad Cymunedol Cymru

3.18 Tu hwnt i'r prif ddangosyddion byddai'n ymddangos bod nifer o fuddion ychwanegol i waith cyllid craidd CFiW. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan CFiW (er na chafodd ei wirio gan y tîm ymchwil) yn y flwyddyn ddiwethaf y dyfarnwyd eu grantiau yn y flwyddyn ddiwethaf i sefydliadau sy'n cefnogi 65,000 o fuddiolwyr yng Nghymru ac sydd â 3,400 o wirfoddolwyr.[8] Er nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli lefelau penodol o briodoliad y maent yn dangos maint gwaith CFiW yng Nghymru. Ymhellach, mae'r arolwg awgrymu y cafodd 50 o swyddi llawn-amser eu creu'n uniongyrchol (a'u priodoli 100%) ym mlwyddyn ariannol 2009/10 drwy grantiau a roddwyd drwy CFiW.[9]

[7] Gwaddol a ddaliwyd gan CFiW ddiwedd 2007 = £1 miliwn. Gwaddol cyfredol = £5.5 miliwn

[8] Ni chafodd yr arolwg hwn ei wirio'n annibynnol gan y Tîm Ymchwil a baratôdd yr adroddiad hwn.
[9] 30 swydd o leiaf 3 blynedd o hyd, 20 swydd o leiaf 1 mlynedd o hyd.

**Sicrhau cyllid ychwanegol**

3.19 Elfen allweddol o'r rhaglen cyllid craidd oedd y cyllid ychwanegol y medrid ei ysgogi gan y sefydliadau a ariannir. Darparwyd cyfanswm o £184,537 i'r CFiW drwy gyllid craidd y Cynulliad ar gyfer rhaglen seilwaith. Dylid nodi y caiff incwm (yn cynnwys cyllid craidd) a dderbynnir gan CFiW ei ddefnyddio ar gyfer darparu grantiau i fuddiolwyr a hefyd ar gyfer costau rhedeg CFiW.

3.20 Fodd bynnag, medrodd CFiW ddangos enilliad uwch na'r targed yng nghyswllt cyllid a ysgogwyd. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad £30,447 o gyllid seilwaith i CFiW ym mlwyddyn ariannol 2007/08. Roedd cyfanswm y grant a ddosbarthwyd gan y CFiW i grwpiau trydydd sector yn y flwyddyn ariannol honno tua £800,000. Ar gyfer y cyfnod 2008 i 2011, darparodd Llywodraeth y Cynulliad tua £61,500 o gyllid craidd blynyddol. Roedd y grant blynyddol cyfartalog a ddosbarthwyd gan CFiW dros y cyfnod 2008 i 2011 tua £1.4 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd grant o 75% ar ffigur 2007/08.

3.21Yn nhermau ychwanegedd, nid oedd yn glir beth fyddai cyfanswm grant blynyddol CFiW wedi bod heb gyllid Llywodraeth y Cynulliad. Yn arwyddol, fodd bynnag, mae'r cyllid craidd blynyddol ychwanegol (tua £31,000[10]) a roddwyd i CFiW wedi dangos enilliad ychwanegol o £19.35 am bob £1 o gyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad.

3.22 Mae enilliad ar gyllid craidd hefyd yn hanfodol wrth sefydlu cynaliadwyedd. Yn ychwanegol at y cyllid grant craidd, mae CFiW yn codi ffioedd rheoli ar gleientiaid am reoli eu proses dyfarnu grantiau. Ar gyfer effaith uniongyrchol mae'r ffi yn 10% o'r cyllid a ddyrannwyd. Ar gyfer rheoli cronfeydd gwaddol, codir ffi flynyddol o 1.25% o gyfanswm y gronfa.

[10] Roedd cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007/08 (cyn y rhaglen bresennol) tua £30,500. Roedd cyllid cyfartalog Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y rhaglen cyllid craidd gyfredol tua £61,500.
.

3.23 Mae CFiW hefyd yn derbyn incwm drwy ffynonellau eraill, yn cynnwys codi arian, cyfraniadau, digwyddiadau, grantiau eraill (e.e. grant Sefydliad Waterloo) ac incwm arall megis rhent a llog banc.

3.24 Mae Ffigur 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm yn ôl ffynhonnell. Gwneir y gymhariaeth rhwng blwyddyn ariannol 2007/08 (y flwyddyn cyn y cyfnod cyllid craidd presennol) a'r cyfartaledd blynyddol dros y cyfnod cyllid craidd cyfredol (2008-11).

**Ffigur 2: Dadansoddiad Incwm - CFiW**

| **Mesur** | **2007/08 (blaenorol) (£)** | **Cyfartaledd Cyfartalog 2008-11 (cyfredol) (£)** |
|---|---|---|
| Cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru | 30,447 | 61,512 |
| Ffioedd rheoli | 75,346 | 134,592 |
| Codi arian, cyfraniadau, digwyddiadau | 15,272 | 21,031 |
| Grantiau eraill | 1,000 | 20,667 |
| Incwm arall (e.e. rent, llog) | 29,292 | 14,314 |
| **CYFANSWM** | **151,357** | **252,116** |

Ffynhonnell: Data ariannol CFiW

3.25 Dengys Ffigur 2 i CFiW fod yn llwyddiannus dros y cyfnod cyllid craidd drwy ysgogi £3.10 ychwanegol o incwm[11] am bob £1 o gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad.[12] Ymhellach, dengys y ffigur fod ffioedd rheoli wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu gyda chanlyniadau 2007/08. Mae hyn yn bwysig oherwydd mai ffioedd rheoli (sy'n cynnwys incwm ffi gwaddol) sydd â'r cyswllt agosaf gyda gweithgareddau masnachol craidd CFiW ac yn y pen draw hwy yw'r ffynhonnell bwysicaf o incwm ar gyfer cynaliadwyedd. Yn neilltuol, dywedodd cyfweleion CFiW y bydd cynaliadwyedd ariannol llawn yn digwydd "*pan fydd gwaddoliadau yn ddigon mawr fel bod ffioedd rheoli yn talu am ein costau staff a'n gorbenion*".

3.26 Daw'r cafeat i'r dadansoddiad hwn drwy gymharu enillion cymesur dros y cyfnod cyllid craidd gyda rhai ym mlwyddyn ariannol 2007/08. Dengys hyn y

[11] (£252,116-£61,512) / £61,512

[12] Nid yw hyn yn berthynas achosol yn unig gan y bydd 'incwm ychwanegol' a dderbyniwyd dros y cyfnod cyllid craidd (i raddau bach) hefyd yn cyfeirio at weithgareddau blaenorol e.e. crynhoi'r gwaddol cyn Ebrill 2008.

cafodd £3.97 o incwm ychwanegol fesul £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ei ysgogi yn 2007/08, o gymharu â £3.10 am bob £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfartaledd dros 2008-11. Ymhellach, cafodd £1.47 ychwanegol o ffioedd rheoli ychwanegol eu hysgogi am bob £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad yn 2007/08 o gymharu gyda £1.18 ar gyfer pob £ o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfartaledd dros 2008-11.

## Effeithiolrwydd ac effeithlondeb

*Trosolwg*

3.27 Er bod y ffigurau perfformiad 'pennawd' yn gadarnhaol iawn, medrodd y tîm ymchwil fynd 'tu ôl i'r rhifau' i amlygu meysydd o berfformiad neilltuol o gryf, gwendidau amlwg a rhyw arwydd o werth cyffredinol am arian. Cyflwynir y canfyddiadau islaw.

*Cryfderau dull CFiW*

3.28 Yn gyffredinol, roedd gan randdeiliaid farn gadarnhaol iawn am CFiW. Roedd cyfweleion yn canmol gallu CFiW i ymrwymo ar y lefel leol yn cynnwys cefnogi'r grwpiau cymunedol hynny sydd *"bellaf o fod yn sefydliad ffurfiol".* Nodwyd fod CFiW *"yn cefnogi rhai elusennau mwy ond mae'n ymddangos fod y ffocws ar grwpiau llai, mwy lleol."* Ymddengys hyn yn bwysig: yn ôl ystadegau a gyflwynwyd yn y Trydydd Dimensiwn, mae grwpiau bach, lleol yn ganolog i'r trydydd sector yng Nghymru; eu hardaloedd lleol yn unig y mae mwy na phump ym mhob chwech o sefydliadau yn eu gwasanaethu, ac mae gan eu hanner incwm blynyddol o lai na £10,000.[13] Eto, fel y cydnabu'r Trydydd Dimensiwn, mewn blynyddoedd diweddar incwm elusennau cenedlaethol sydd wedi codi mwyaf ac incwm elusennau 'lleol' sydd wedi codi leiaf.[14]

---

[13] Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, t. 12

[14] Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008, t. 12

3.29 Dywedodd un rhanddeiliad hefyd: *“Dim ond elusennau cofrestredig y bydd llawer o ddyngarwyr yn eu cefnogi. Mae CFiW yn cefnogi grwpiau cymunedol nad yw’n rhaid iddynt fod yn elusennau, neu a fedrai fod yn meddwl am ddod yn elusen ar ryw bwynt ond nad ydynt yno eto. Mae’r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yno ar gyfer grwpiau llai sefydledig”.* Ymhellach *“Byddwch bob amser yn cael sefyllfa lle bydd busnes lleol sydd eisiau rhoi yn gwybod pa elusennau lleol y maent eisiau eu cefnogi. Ond beth sy’n digwydd pan nad yw’r busnes yn gwybod am dirlun yr elusen leol neu wedi’i seilio tu allan i’r ardal neu hyd yn oed y wlad?Dyna le mae gan CFiW rôl”.*

3.30 Dywedodd rhanddeiliaid fod CFiW wedi gwneud cynnydd da wrth sefydlu ei hunan fel y sefydliad blaenllaw ar gyfer dyngarwch preifat yng Nghymru: *“maen nhw’n unigryw yng Nghymru drwy gynnig cyngor ar ddyngarwch i gleientiaid preifat - ymddiriedolaethau, unigolion a theuluoedd a busnesau.”* Hefyd: *“Mae CFiW wedi gwneud gwaith da yn nhermau hyrwyddo dyngarwch yng Nghymru ac mae ganddyn nhw ddigwyddiad ar hyn ar y gweill i’w gynnal yn y Senedd.”*

3.31 Roedd hefyd yn briodol ymwrthod y temtasiwn i ehangu cwmpas gweithgareddau CFiW. Dywedodd un rhanddeiliad: *“Rwy’n meddwl fod ffit clir. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru yn medru gwneud gwaith math meithrin gallu, cyflenwi rhaglenni ariannu grant mwy ac ati. Mae’r Sefydliad Codi Arian yn cefnogi’r sefydliadau hynny sydd eisoes â chodwyr arian.”*

3.32 Yn wir, gall fod risgiau i CFiW wrth fentro i reoli cyllid grant, wrth iddynt gydnabod: *“Mae gennym broffil clir ar hyn o bryd drwy fod yn delio gyda chronfeydd preifat yn unig. Ac rydyn ni wedi canfod cleientiaid fel hynny. Maen nhw’n hoffi i’w henwau fod yn gysylltiedig â chronfeydd a’r cronfeydd hynny’n cael eu hyrwyddo. Dydyn nhw ddim yn neilltuol eisiau i’w cronfeydd gael eu llyncu o fewn anghenfil y sector cyhoeddus. Er na fyddai hynny’n digwydd, efallai y byddai awgrym o syniad ein bod rhyw ffordd yn rhan o’r peiriant sector cyhoeddus mawr. Ac fe fedrem weld fod diddordeb unigolion preifat a busnesau yn gostwng fel canlyniad.”*

3.33 Roedd y meysydd eraill lle credai rhanddeiliaid y bu CFiW yn neilltuol o effeithiol yn cynnwys:

Y gwerth ychwanegol sy'n dod gyda gwasanaethau CFiW: *"Roedd yr hyn y gwnaethon nhw ei roi i ni yn fwy na dim ond y grant .. yr hyn a gawson ni oedd cyhoeddusrwydd a phroffil hollbwysig ar gyfer gwaith ein helusen. Nid oes modd rhoi gwerth ariannol ar hynny. Mae'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn golygu fod llawer mwy o bobl yn derbyn ein cefnogaeth."*

Mae'r CFiW yn cyflwyno *"wyneb dynol"* i'r broses gwneud cais am grant: *"Pwynt amlwg efallai, ond nid yw bob amser yn wir wrth wneud cais am grantiau, sy'n aml yn dasg glinigol ac amhersonol."*

Yr hyder a gafodd ei feithrin gan ymrwymiad CFiW i ddyfarniadau grantiau dilynol gydag ymweliadau i weld sut y caiff y grant ei wario: *"mae'r gwaith dilyn i fyny yn ardderchog."*

Gwaith codi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth CFiW gyda dyngarwyr tu allan i Gymru: *"Maent yn rhoi proffil elusennau a grwpiau cymunedol i ddyngarwyr y tu allan i Gymru na fyddai yno onibai am y Sefydliad."* Ymhellach: *"Mewn geiriau u syml, dim ond oherwydd bod y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru wedi bod mewn cysylltiad â hwy y mae rhai cyllidwyr yn cyfrannu yng Nghymru ar hyn o bryd."*

3.34 Soniodd staff CFiW am y manteision sy'n llifo o hyblygrwydd eu model: *"Oherwydd ein bod ni'n cael ein hariannu gan lawer o ffynonellau, mae'n ein galluogi i weithredu'n fwy hyblyg nag ymddiriedolaeth yn lledaenu grant yn ôl cyfyngiadau llym. Os yw cymuned yn gwneud cais am arian cymunedol dan un gronfa ond heb gyflawni meini prawf penodol y client, rydyn ni'n medru cysyllu ag unigolion preifat eraill ar eu rhan a fyddai efallai'n medru helpu. Felly rydyn ni'n ychwanegu hylifedd i'r system drwy fedru ysgogi cronfeydd o ystod eang o ffynonellau."*

3.35 Lle'r oedd angen, roedd staff CFiW hefyd yn medru gweithio gyda grwpiau cymunedol i wella eu ceisiadau: *"Rydyn ni'n hefyd yn drugarog gydag ymgeiswyr ... Os yw cais yn anobeithiol yna efallai y byddem yn gweithio gyda*

*nhw i'w wella. Felly yn y cyswllt hwnnw fel sgil-gynnyrch, rydyn ni hefyd yn cynnig elfen o feithrin gallu yn ein gwaith."*

3.36 Dylid nodi hefyd mai CFiW yw'r Sefydliad Cymunedol yn y DU i ennill Achrediad Ansawdd (QA) am waith dyngarwch. Caiff y dyfarniad QA ei oruchwylio gan y Rhwydwaith Sefydliad Cymunedol ac ef yw'r cyntaf o'i fath i dderbyn cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau. Rhoddwyd tystlythyrau gan gleientiaid CFiW fel rhan o'r broses achredu. Efallai y medrid disgwyl wrth gwrs eu bod yn dangos barn gyffredinol gadarnhaol o CFiW. Yn fwy nodedig serch hynny yw cysondeb y sylwadau yn ymwneud â:

Lefel yr arbenigedd y daeth CFiW ag ef i'r broses dyngarwch: *"mae ganddyn nhw lawer iawn o arbenigedd mewn codi arian a rheoli grantiau".*

Bod y dull CFiW yn golygu mai dim ond i brosiectau dibynadwy, cynaliadwy a gwerth chweil yr aiff cyllid. Mae hyn yn rhoi *"tawelwch meddwl"* i Ymddiriedolwyr sydd eisiau cyflawni eu nodau dyngarol: *"Caiff prosiectau eu gwerthuso'n drwyadl ar ein rhan, gan roi sicrwydd i ni fod y cyllid yn cael ei fonitro a'i ddosbarthu'n effeithiol."*

Eu hargaeledd: *"Mae'r Sefydliad ar gael bob amser i helpu gyda chyllid a phroblemau cyllid."* Ac: *"Mae'n adnodd pwysig i Gymru, a rhywbeth y byddid yn ei golli. Mae cael corff fel y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn golygu fod cymorth bob amser ar gael."*

Hyblygrwydd: *"Fe wnaeth y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ein helpu i ddeall sut y medrem ddosbarthu'r cronfeydd mewn ffordd effeithiol o ran treth. Ond yn fwy na hynny, fe wnaethom drafod y mathau o grwpiau cymunedol y byddem yn hoffi eu cefnogi, lle medrai'r grwpiau hynny fod. Roedden ni bob amser yn teimlo ein bod wedi'n cynnwys yn llawn."*

Rhoi datrysiad i adnoddau cyfyngedig oedd ar gael i roddwyr: *"fe fyddai wedi bod yn anodd i ni ganfod yr adnoddau i ddosbarthu'r cronfeydd hyn yn y ffordd y cawson nhw eu dosbarthu."*

Maint yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae CFiW yn eu rhoi drwy eu rhwydwaith o gysylltiadau, partneriaethau a pherthnasau yng Nghymru. Fel y dywedodd un elusen genedlaethol: *"maent yn rhoi cefnogaeth i*

*sefydliadau sydd, gan fwyaf, oddi ar radar busnesau fel ni".* Ychwanegodd un arall: *"mae ganddyn nhw lawer iawn gwell gwybodaeth leol nag sydd gennym ni. Maen nhw'n adnabod eu hardal, anghenion grwpiau neilltuol, heriau cyllido a'r hyn y gall elusennau ddisgwyl ei gael o'r Cynulliad Cenedlaethol neu ffynonellau eraill."* Ymhellach: *"maen nhw hefyd yn medru dynodi elusennau lleol da na fyddai efallai yn gwybod am* [dilëwyd enw'r sefydliad] *ond a fedrai fod yn addas iawn i wneud cais."*

Eu presenoldeb: *"Yn fy mhrofiad i y Sefydliad yw'r prif sefydliad yn ei faes",* a: *"O'r hyn a wyddom, maent yn uchel eu parch"* ac ymhellach: *"Maen nhw'n sefydliad annibynnol sy'n ddeniadol ond mae ganddyn nhw gysylltiadau gyda phob sector, yn cynnwys llawer o gysylltiadau yn y sector cyhoeddus."*

*Gwendidau dull CFiW*

3.37 Mae'n anochel fod rhai cyfeatau yn mynd gyda thystiolaeth o berfformiad cyffredinol cryf.

3.38 Credai CFiW y medrid bod wedi gwneud mwy i gynyddu proffil y Sefydliad ar draws cymunedau yng Nghymru: *"Medrid gwneud mwy i leoli'r Sefydliad fel bod yn ganolog i ddatblygiad cymunedau yng Nghymru. Gwnaethpwyd camau breision ymlaen, ond mae ffordd i fynd o hyd."*

3.39 Mae'r cefndir hanesyddol yn cynnig rhywfaint o ffactor cyfyngol yn y cyswllt hwn: *"Mae hanes dros y 15 neu 20 mlynedd ddiwethaf o geisio trefnu Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, ond methodd y ceisiadau hynny. Cafodd y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ei hunan ei greu 10 mlynedd yn ôl drwy uno Sefydliad Cymunedol Powys oedd wedi dod i ben a Sefydliad De Ddwyrain Cymru oedd mewn anawsterau. Felly gwyddom fod risgiau cynhenid wrth ddatblygu cysyniad Sefydliad Cymunedol yng Nghymru."*

3.40 Ymhellach, mae tystiolaeth o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn awgrymu ei bod yn cymryd 15-20 mlynedd i ddod yn hunangynhaliol drwy fas critigol o grantiau uniongyrchol ac incwm gwaddol: *"Pan edrychwch chi ar Essex, Swindon a*

*Wiltshire neu Tyne and Wear, ac mae'r ardaloedd hyn yn bileri'r mudiad, mae ganddyn nhw bellach symiau gwaddol enfawr ac yn ariannu ein hunain mewn gwirionedd. Ond mae wedi cymryd tua 20 mlynedd".* Yn y cyswllt hwn, dywedodd Prif Weithredwr CFiW ei bod wedi dweud yn ddiweddar wrth ymchwiliad y Cynulliad i gyllido'r sector gwirfoddol: *"y byddai'r Sefydliad Cymunedol yn gwneud colled i ddenu cwsmeriaid am 15 mlynedd".*

3.41 Mae adborth o sefydliadau dyngarol mwy y tu allan i Gymru hefyd yn awgrymu nad yw safon ceisiadau gan elusennau a grwpiau cymunedol yng Nghymru bob amser yn gystadleuol: *"Fe wnaethom ofyn i nifer o sefydliadau mwy fel Sefydliad Henry Smith pam ei bod yn ymddangos fod Cymru'n colli allan pan gaiff cronfeydd eu dosbarthu. Yr ateb oedd bod ceisiadau o Gymru yn aml o ansawdd wael o gymharu gyda cheisiadau o rannau eraill Prydain. Nid yw meithrin gallu yn y ffordd hon yn fater i ni o'i ran ei hun ond mae'n rhoi cefndir ar gyfer ei gwaith. Mae hefyd yn golygu fod sefydliadau fel Sefydliad Henry Smith yn edrych am sefydliad dibynadwy yng Nghymru i argymell elusennau a grwpiau cymunedol y medrid eu hariannu. Maent yn ymddiried yn ein barn yn hyn o beth."*

3.42 Yn olaf, datgelodd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid nifer fechan o bryderon am gyflenwi'r rhaglen. Dywedodd un y medrid bod wedi gwneud mwy i gryfhau Bwrdd CFiW yn gynharach yng nghyfnod y rhaglen: *"Pigo beiau ydi hyn - oherwydd bod eu perfformiad yn dweud eu bod yn wirioneddol wedi llwyddo - ond rwy'n credu y bydden nhw wedi hoffi datblygu Bwrdd cryfach yn gyflymach."*

*Trefniadau rheoli*

3.43 Cafwyd sylwadau cadarnhaol hefyd am y trefniadau rheoli sy'n sylfaen i'r gwaith cyllid craidd. Yn ôl CFiW, caiff gwaith CFiW ei gryfhau'n sylweddol gan ei gysylltiadau gyda'r Rhwydwaith Sefydliad Cymunedol yn ehangach. *"Maent yn ein cynrychioli ac yn ein hyrwyddo"* ac mae ganddynt *"ddealltwriaeth eang a manwl o sefydliadau cymunedol a sut y maent yn gweithio."*

3.44 Serch hynny, roedd ymatebwyr allweddol eraill yn llai sicr am y manteision: *“Dwi ddim yn siŵr beth mae’r cysylltiadau Prydeinig wedi’i ychwanegu”.*

3.45 Ystyriwyd fod y berthynas rhwng CFiW a Llywodraeth y Cynulliad yn *“dda”* ar hyd y rhaglen cyllid craidd. Yn y cyswllt hwn, teimlwyd ei bod yn bwysig nad oedd gofynion adrodd *“yn or-feichus”.*

3.46 Fodd bynnag, cwestiynodd Llywodraeth y Cynulliad y targed blynyddol a osodwyd ar gyfer y ‘cynnydd mewn gwaddol’ yn y flwyddyn olaf (£500,000). Yn neilltuol, dymunent ganfod pam y gosodwyd targed is na’r flwyddyn flaenorol. *“Roedd oherwydd y gwyddem ei fod yn darged anodd o gofio’r hyn sy’n yr arfaeth.”*

3.47 Yn y cyswllt hwn, efallai nad targedau blynyddol yw’r dangosydd gorau o berfformiad. Yn gyntaf mae’r prosesau dyngarol o’r cysylltiad dechreuol gyda darpar gleient i ddosbarthu eu cyllid yn tueddu i fod yn gymharol hir: *“Efallai y byddai’n rhaid i chi wneud nifer o gyflwyniadau i Swyddogion y Cyngor cyn i chi fynd unrhyw le gyda’r cronfeydd segur sydd ganddyn nhw. Rydych chi’n gwerthu’r cysyniad”.* Yn ail, mae’n amlwg y gall y sensitifrwydd am berfformiad fod yn eithafol: *“iawn os ydych chi’n cael rheoli Ymddiriedolaeth, ond os mai’r penderfyniad yw peidio trosglwyddo cronfa Ymddiriedolaeth i chi yna dydych chi’n cael dim byd yn ôl am yr amser rydych wedi ei roi i’r peth.”* O’r herwydd: *“Mae targedau tair blynedd yn well ar gyfer barnu perfformiad”.*

*Effeithiolrwydd*

3.48 Mae’r canfyddiadau a gyflwynwyd yn flaenorol yn awgrymu perfformiad cryf yn nhermau ysgogi cronfeydd. Cadarnhawyd hyn yn fras mewn ymatebion hysbyswyr allweddol yn cynnwys: *“defnydd da iawn o arian”, “gwaith ardderchog”* a *“llwyddo i ysgogi swm sylweddol o arian.”*

3.49 Gall y CFiW hefyd ddangos perfformiad cryf yng nghyswllt sefydliadau eraill ar draws y Deyrnas Unedig dros y cyfnod cyllid craidd; mae hyn er yr ymddengys fod llawer o'r Sefydliadau Cymunedol hynny yn mwynhau lefelau uwch o gyllid y llywodraeth. Fel y dywedodd un o'r cyfweleion: *"Er iddo gychwyn o sylfaen hanesyddol isel, mae'r Sefydliad wedi sicrhau twf canran sylweddol uwch ar grantiau a ddosbarthwyd a thwf gwaddol dros y tair blynedd ddiwethaf nag unrhyw Sefydliad arall yng ngweddill Prydain mae'n debyg. Ac eto, o gyfuno hynny gyda'r cyllid gwladol sydd ar y cyfan yn is yma yng Nghymru, mae hynny'n awgrymu lefelau da iawn o werth am arian o gymharu."*

**Enghreifftiau o arfer da**

3.50 Yn seiliedig ar y perfformiad cyffredinol dda yn erbyn targedau a dynodi elfennau proses effeithol, medrodd cyfweleion ddynodi nifer o arferion da.

3.51 Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth yn awgrymu fod CFiW yn **mynd i'r afael ag angen canfyddadwy yng Nghymru.** Diben CFiW yw cyfateb rhoddwyr preifat gyda gweithredwyr yn y trydydd sector. Yn y ffordd yma, maent yn rhoi hylifedd hanfodol i'r sector dyngarol yng Nghymru. Nid oes unrhyw sefydliad arall yng Nghymru yn cynnig y gwasanaeth penodol yma. Mae adborth yn awgrymu fod cleientiaid yn gwerthfawrogi *"gwybodaeth leol"* CFiW o'r tirlun trydydd sector yng Nghymru, yn gwerthfawrogti dull trylwyr y CFiW o reoli cronfeydd dyngarol a dyfarnu grantiau ac yn croesawu cael gwared â'r baich gweinyddol sy'n dod gyda rheoli Cronfa Ymddiriedolaeth.

3.52 Yn ail, mae'r canfyddiadau'n dangos pwysigrwydd **gweithredu mewn maes arbenigol a ddiffiniwyd yn glir.** Yn ogystal â chyfateb rhoddwyr gyda gweithredwyr, medrir diffinio maes arbenigol CFiW ymhellach gan y mathau o elusennau a grwpiau cymunedol sy'n ffurfio prif gynheiliaid buddiolwyr CFiW. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn grwpiau iau, mwy anffurfiol a llai heb y gallu presennol i gynnal gweithgareddau codi arian eu hunain. Canfuwyd bod cael diben eglur yn y ffordd hon yn ddeniadol i roddwyr preifat, sy'n awyddus i roi eu hamodau penodol ar y cronfeydd a roddant.

3.53 Yn drydydd mae CFiW yn gweithredu o fewn **model twf busnes sy'n arddel effeithiolrwydd.** Cafodd CFiW ei annog gan bryderon hanesyddol am sefydliadau cymunedol a fethodd yng Nghymru i edrych am ddulliau amgen i dyfu'r cysyniad ar draws Cymru. Mae timau craidd canolog yn cynrychioli'r prif gostau sy'n gysylltiedig gyda sefydliadau cymunedol. Mae cynaliadwyedd yn golygu fod angen cynyddu lefel neilltuol o incwm ar gyfer y costau craidd hynny. Ymddengys fod *"argaeledd mas"* yn allweddol: *"Nid oes sefydliad cymunedol yng Nghaerfaddon, er enghraifft, ac mae'n debyg bod hynny oherwydd mas sydd ar gael yn ddigon mawr. Bydd gan Lundain er enghraifft fas enfawr ar gael."* Yn seiliedig ar ymarferion mewn mannau eraill, ymddengys fod gan CFiW ddull gweithredu sy'n osgoi'r broblem: *"Nid oedd yn ymddangos fod y modelau blaenorol ym Mhowys a De Ddwyrain Cymru yn gweithio. Ar hyn o bryd mai'n debyg mai dim ond un sefydliad cymunedol sydd ei angen yng Nghymru. Felly'r hyn a wnaethom yw profi'r syniad o Gronfeydd Ardal. Nid yw'r rhain yn sefydliadau ar wahân fel sydd yn siroedd Lloegr. Maent yn ganolfannau o weithgaredd dyngarol sy'n gweithio drwy ddod â phobl leol a dyngarwyr lleol ynghyd."*

3.54 Mae gwaith CFiW yn canolbwyntio ar **ryddhau cronfeydd segur** sydd yn nwylo awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill ledled Cymru yn ymddangos yn addawol iawn. Hyd yma cafodd chwe chronfa segur eu rhyddhau a dywed CFiW fod diddordeb gan awdurdodau lleol yn cynyddu. Fel y dywedodd un rhanddeiliad: *"Mae sefydliadau megis awdurdodau lleol weithiau'n cael anawsterau wrth hyrwyddo a gweinyddu cronfeydd elusennol y maent yn ymddiriedolydd corfforaethol ar eu cyfer. Mae pawb ohonon ni yn y pen draw, eisiau gweld cronfeydd elusennol yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion elusennol. Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn cynnig datrysiad i'r broblem hon drwy ddod yn gyfrifol am weinyddu'r cronfeydd hyn a mynd â'r baich oddi ar yr awdurdod lleol."* Ymhellach, fel y dynododd y CFiW yn barod: *"Rydym yn perfformio'n dipyn gwell na nhw* [awdurdodau lleol} *mewn ''enillion ar fuddsoddiad' drwy waith ein Pwyllgor Buddsoddiadau."*

3.55 Mae CFiW yn sylweddoli maint y cyfle *("Mae'n broblem i awdurdodau lleol ac yn gyfle mawr i ni")* yn ogystal â maint yr her: *"Mae awdurdodau lleol wrthi'n edrych ar ostwng gwasanaethau heb fod yn hanfodol."* Fodd bynnag: *"Bu'r Comisiwn Elusennau a'r Swyddfa Archwilio yng Nghymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol ers 7 neu 8 mlynedd bellach yn eu hatgoffa am eu hoblygiadau fel Ymddiriedolwyr!"*

3.56 Ymhellach, nid awdurdodau lleol yw'r unig ffynhonnell cyfle yn y cyswllt hwn: *"Mewn gwirionedd*, *mae llawer o gyfrifon segur allan yno. Nid dim ond o fewn awdurdodau lleol ond hefyd ar lefel y gymuned, cronfeydd yn nwylo eglwysi lleol ac yn y blaen."*

3.57 Nodwyd na fu sefydliadau cymunedol mor llwyddiannus wrth ymrwymo gydag awdurdodau lleol: *"Mae nifer ohonyn nhw wedi gofyn i ni sut yr ydym yn ei wneud!"* Mae partneriaeth waith dda yn ganolog i'r dull hwn. Yn y cyswllt hwn bu sefydliadau cysylltiadau da gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru yn bwysig: *"Maen nhw* [y Comisiwn Elusennau] *hefyd yn goruchwylio unrhyw drafodion lle rydym yn dod yn gyfrifol am gyfrif segur, gan roi caniatâd yn ogystal â chyngor i bawb sy'n gysylltiedig."*

3.58 Bu **cynnal gwasanaeth trwyadl ac ansawdd da** yn ganolog i waith y CFIW. Ymddengys fod tryloywder - sy'n adeiladu ymddiriedaeth - yn ganolog. Mae CFiW yn gweithio gyda cheleintiaid i gyfeirio *"lle, beth a phryd"* ar gyfer dosbarthu cyllid. Cedwir ymddiriedaeth drwy dryloywder yn y ffordd y caiff grwpiau buddiolwyr eu dynodi a'u dewis: *"Nid cyffyrddiad ysgafn mohono. Rydyn ni eisiau i gleientiaid wybod mai dim ond at fuddiolwyr posibl fydd yn defnyddio'r cyllid yn y ffordd gywir y byddwn yn eu cyfeirio. Felly fe fedrem holi i weld os ydynt yn gweithio'n dda gyda'u Cyngor Gwirfoddol lleol, bod yna fwlch yn lleol am y gwasanaeth arbennig, fod ganddynt dystlythyrau da, beth yw barn eu Haelod Cynulliad lleol amdanynt, neu fod ganddynt broffil cadarnhaol yn y gymuned leol."*

3.59 Bu **adeiladu 'tîm' o safon yn hollbwysig.** Soniodd CFiW am gynnydd sylweddol yn safon y staff a'r Ymddiriedolwyr sydd ar gael. Newidiwyd y strwythur pan gyrhaeddodd y Prif Weithredwr presennol yn 2007. Yn ogystal â thîm staffio craidd newydd, cafodd aelodaeth y Bwrdd ei gryfhau hefyd. Yn ychwanegol, gan gydnabod yr angen i adeiladu hyder gyda chleientiaid presennol a phosibl, dilynodd y Prif Weithredwr hyfforddiant achredig mewn Dyngarwch - yr unig berson i ennill y cymhwyster yng Nghymru: *"Rwyf wedi dilyn hyfforddiant sy'n golygu mai ar hyn o bryd fi yw'r unig berson yng Nghymru sydd wedi pasio hyfforddiant achredig mewn Dyngarwch. Mae aelod arall o'r tîm yn gwneud yr hyfforddiant nawr."*

3.60 Yr hyn a ymddengys yn hollbwysig yma yw'r canfyddiad allanol o'r CFiW: *"Mae codi ymwybyddiaeth a gweithgaredd hyrwyddo yn ganolog i'r hyn rydyn ni wedi'i wneud gyda'r cyllid craidd. Mae o wir mor bwysig â hynny. Ond ar ôl sicrhau sylw cyllidwr posibl, mae'n rhaid i ni wedyn godi ymddiriedaeth. Mae'n rhaid i roddwyr fod â hyder yn eich pobl. Mae pobl yn buddsoddi mewn pobl. Wnân nhw ddim buddsoddi os ydych chi'n cwtogi ar bobl. Mae hynny'n bryder mawr gydag unrhyw doriad posibl mewn grant. Yn fwy cyffredinol, pa neges fyddai cwtogi ar staff yn ei roi i gleientiaid preifat presennol a darpar gleientiaid preifat?"*

## Sylwadau ar drefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol

*Amcanion ar gyfer y Dyfodol*

3.61 Dywed adroddiad y CFiW y bydd pedair thema neilltuol yn sylfaen i amcanion y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru:

- Adeiladu cynaliadwyedd mewn cymunedau ac ar gyfer CFiW;
- Meithrin gallu yn y sector gwirfoddol a chymunedol;
- Cydlyniaeth gymunedol (mae rhai o'u rhaglenni yn benodol am gydlyniaeth gymunedol);

Hybu dyngarwch cymunedol yn cynnwys *localgiving.com*, *Cronfa i Gymtu* a gweithio gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru i ryddhau cronfeydd segur o fewn awdurdodau lleol.

3.62 Mae'n anochel bod cynaliadwyedd yn ganolog i amcanion tymor hwy CFiW. Mae'r CFiW yn anelu i ddod yn ariannol hunanddigonol drwy'r incwm ffi rheoli y mae'n ei godi am reoli a dosbarthu cronfeydd a grantiau. Fodd bynnag: *"Fel sy'n wir gyda llawer o'r Sefydliadau iau a llai, mae angen buddsoddi yn y costau rhedeg gwreiddiol nes ein bod yn cyrraedd mas critigol o gronfeydd a ddalir ac yn medru cefnogi ein hunain yn ariannol."*

3.63 Soniwyd eisoes am sicrhau cynaliadwyedd drwy adeiladu incwm ffi gwaddol. Ond gall cyfleoedd eraill hefyd ddod gyda maint: *"Mae'r Sefydliad Cymunedol yn yr Alban yn enghraifft lle pan fyddwch yn cyrraedd maint arbennig, yna gyda hynny daw presenoldeb arbennig yn y sector a bydd gofyn i chi gynnal ymchwil a chyfrannu at ddatblygiadau polisi ac yn y blaen. Mae'r ochr ymchwil yn llinell fasnachol bosibl yr hoffem ei dilyn."*

3.64 Mae opsiynau eraill a ddynodwyd ar gyfer cynhyrchu incwm a fedrai helpu CFiW i gyrraedd 'mas critigol' yn cynnwys:

Parhau trefniadau ariannu craidd i gefnogi mwy o waith cynhyrchu incwm. Dywed CFiW: *"yn gyffredinol bu'r canlyniad gorau ar draws y Rhwydwaith o Sefydliadau Cymunedol lle medrodd sefydliad ddefnyddio cyllid grant fel y dymunent."* Medrai'r opsiynau yma gynnwys tapro cyllid craidd dros dair blynedd wrth i'r gronfa waddol a'r ffioedd rheoli gynyddu;

Cysylltu ag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau eraill: gwyddys fod chwe Ymddiriedolaeth yn y Deyrnas Unedig sydd yn hanesyddol wedi cyllido Sefydliadau Cymunedol (mae CFiW eu hunain wedi derbyn cyllid yn flaenorol o un o'r rhain: Lloyds TSB) ond datgelodd cyswllt diweddar gyda phob un gan CFiW nad oes dim ohonynt yn ariannu sefydliadau cymunedol yn awr;

Posibilrwydd cyllid yn y dyfodol drwy Sefydliad Esmée Fairbairn;

Datblygu localgiving.com a all roi incwm bychan (gan fod bron y cyfan o'r cyllid a gynhyrchwyd o'r ffynhonnell hon yn cael ei ddosbarthu i grwpiau cymunedol).

Symud i faes rheoli grant ar gyfer meithrin gallu. Yn ymarferol mae hyn yn faes y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac eraill yng Nghymru yn gweithio ynddo. Yn ddiddorol serch hynny dywedodd un rhanddeiliad *"Sefyllfa'r NACVO yn Lloegr yw ei bod yn well gwahanu cefnogaeth meithrin gallu a darparu grantiau".* Serch hynny, mae cefnogi'r seilwaith presennol yn nodwedd allweddol o'r Trydydd Dimensiwn ac mae hyn, a'r cyfyngiadau gallu, yn golygu fod CFiW yn annhebygol o gystadlu (neu fod eisiau cystadlu) yn y sector: *"fe fedrem wneud rhywbeth gyda rhaglen grant £1m, ond byddai rhaglen £50 miliwn ormod."*

Cyfleoedd caffael y Llywodraeth e.e. grantiau ymchwil, lledaenu gwybodaeth; digwyddiadau.

Defnyddio technoleg newydd. Mae CFiW yn cydnabod manteision hirdymor arwain mewn datblygiadau technoleg newydd. Fel y dywedodd un rhanddeiliad: *"Bydd technoleg yn newid y ffordd yr ydym yn codi arian ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'n rhywbeth fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn dros y tair blynedd nesaf."*

Modelau eraill o gyllid gan y llywodraeth [15] Medrent gynnwys 'talu drwy ganlyniadau' tebyg i'r Gronfa Her yn Lloegr sy'n gweithio drwy roi arian cyfatebol lle mae sefydliadau cymunedol yn codi eu cronfeydd gwaddol yn llwyddiannus. Gyda ffi rheoli i'r sefydliadau cymunedol o tua 10%, mae'n

[15] Dywed CFiW fod cyllid Ewropeaidd yn anaddas ar gyfer eu hanghenion cyllido am nifer o resymau: *"Mae ein cleientiaid yn hoffi bod â rhan wrth benderfynu sut y caiff eu cyllid eu ddefnyddio. Anaml os byth mae'n nhw'n dweud dyma'r arian, gwnewch fel y mynnwch gydag ef. Ac yn draddodiadol mae cyllid Ewropeaidd wedi gofyn am arian cyfatebol ymlaen llaw".* Mae gan gyllid Ewropeaidd hefyd ei amcanion a'i dargedau ei hunan a fyddai'n newid a chyfyngu eu hymagwedd. Eto mae hyn yn anghymwys gyda dyngarwch preifat: *"Byddai ein cleientiaid eisiau cadw disgresiwn dros yr amcanion cyllido".* Yn olaf, gyda chyllid Ewropeaidd, *"byddai'r teimlad fod cyfraniadau preifat yn cael eu llethu mewn rhyw brosiect cyllid Ewropeaidd anferthol, gyda'r rhaglen Cydgyfeirio – yn hytrach na'r cyllidwr preifat – yn cael y clod".* Mae CFiW a rhanddeiliaid eriall yn cydnabod yn eang fod sefydliadau fel Canolfan Cydweithredol Cymru mewn lle gwell i gyrchu cylld Ewropeaidd.

cynnig ffordd *"ddeniadol iawn"* o adeiladu cynaliadwyedd, er bod CFiW yn dweud nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad *"ddim diddordeb"* yn y dull hwn.

*Effaith y dirywiad economaidd diweddar*

3.65 Roedd cydnabyddiaeth eang ymysg y sawl a gyfwelwyd y byddai toriadau mewn cyllid sector cyhoeddus yn y dyfodol yn rhoi pwysau na welwyd ei debyg ar Lywodraeth y Cynulliad. Yn y cyswllt hwn rhagwelai nifer o ymatebwyr y byddai gostyngiad yn y cyllid i'r trydydd sector yn gyffredinol yn ogystal ag i gyllid craidd ar gyfer cefnogaeth seilwaith.

3.66 Fodd bynnag, medrodd cyfweleion hefyd ddynodi risgiau posibl yn gysylltiedig gyda phenderfyniad o'r fath yn cynnwys:

Colli arian preifat i'r trydydd sector ar adeg pan fo arian cyhoeddus i'r trydydd sector yn debyg o gael ei ostwng. Fel y dywedodd un cyfwelai: *"Yn Lloegr mae'r Llywodraeth yn daer i ddenu arian preifat."*

Potensial am wahaniaeth cynyddol rhwng cyllid i sefydliadau cymunedol yng Nghymru a'r cyllid sydd ar gael i sefydliadau cymunedol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig;

Difrod i'r canfyddiad o'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Fel y dywed CFiW: *"Mae'r model busnes y gwnaethom ei ddilyn dros y cyfnod cyllid craidd yn dodi pwyslais mawr ar godi ymwybyddiaeth ymysg y gymuned ddyngarol ar draws y Deyrnas Unedig ac yn awr tu hwnt. Mae'r bobl hyn eisiau buddsoddi mewn sefydliadau cryf ac egniol. Byddai i ni aros yn ein hunfan fel canlyniad i doriadau yn anfon neges ofnadwy i'r bobl yma."*

*Trefniadau'r dyfodol*

3.67 Dymuniad CFiW fyddai bod cyllid craidd yn parhau ar y lefelau presennol am dair blynedd arall. Byddai buddsoddiad o tua £60,000 y flwyddyn am dair blynedd, fan leiaf, yn sicrhau'r sylfaen staff presennol ac yn galluogi CFiW i barhau i hyrwyddo a datblygu'r Sefydliad mewn modd rhagweithiol.

3.68 Pe byddai CFiW yn derbyn cyllid craidd pellach ar yr un raddfa, maent wedi nodi y byddent yn dymuno gweithio at gyflawni'r targedau dilynol dros gyfnod o dair blynedd:

Cynyddu eu cronfeydd gwaddol gan £3 miliwn;

Dosbarthu o leiaf £1.6 miliwn mewn grantiau bob blwyddyn;

Lansio pedair Cronfa Ardal;

Adeiladu ar eu harweinyddiaeth o ddyngarwch yng Nghymru (e.e. sefydlu Cronfa i Gymru, datblygu localgiving.com, cynnal 5 digwyddiad dyngarwch bob blwyddyn, sefydlu Canolfan Dyngarwch ffurfiol yng Nghymru)

3.69 Pe bai'r cyllid hwn yn cael ei ddileu, byddai CFiW yn mynd yn ôl i fodel busnes goddefol yn canolbwyntio ar weinyddu cronfeydd presennol: *"Byddai'n colli cyfle go iawn. Heb gyllid craidd byddai'n rhaid i ni fynd lawr i ddau o staff a chanolbwyntio'n llwyr ar ddosbarthu'r arian rydym eisoes yn ei gynhyrchu o waddol. Yn sylfaenol ni fyddai unrhyw waith i gynyddu'r gwaddol, edrych am ffynonellau newydd o ddyngarwch fel y cyllid segur neu agor Ymddiriedolaethau newydd ledled Cymru, neu hyrwyddo dyngarwch yng Nghymru."* Ymhellach: *"Byddai hefyd yn llawer anos darbwyllo cleientiaid fel Ymddiriedolaeth Fair Share, Ymddiriedolaeth Henry Smith a Sport Relief i gadw ein gwasanaethau."*

# 4 Canfyddiadau: Sefydliad Codi Arian Cymru

4.1 Yn yr adran hon mae'n sylw yn troi at ganfyddiadau gwaith cyllid craidd Sefydliad Codi Arian Cymru (IoFC). Mae cafeatau tebyg yn weithredol i'r fethodoleg: mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar adolygiad graddfa fach. Unwaith eto, cyflwynir y canfyddiadau dan benawdau sy'n cyfeirio at amcanion allweddol yr ymchwil.

**Rhesymeg bresennol a pharhaus**

4.2 Mae bod llwyddiant wrth sicrhau adnoddau yn hollbwysig i gynaliadwyedd a datblygiad y trydydd sector yn ganolog i bwrpas gwaith yr IoFC yng Nghymru.

4.3 Yng nghyswllt y rhesymeg barhaus am gyllid craidd, dywedodd yr IoFC fod llawer o'r achos a gyflwynwyd ddechrau 2008 yn dal i fod yn berthnasol heddiw. Roedd "*galw cryf*" yn seiliedig ar *"lefelau cymharol isel o gyfleoedd codi arian yng Nghymru"* yn bwysig. *"Ychydig o gwmnïau preifat mawr sydd â'u pencadlysoedd yma; dim ond nifer fach o ymddiriedolaethau dyfarnu grantiau sydd ar gael".* Yn ychwanegol, credid bod arbenigedd codi arian yn *"isel yng Nghymru".* Yn yr un modd, credai'r IoFC fod eu gwaith yn cefnogi ymdrechion ehangach i godi sgiliau busnes a rheolaeth ar draws Cymru.

4.4 Ystyriwyd bod y cysylltiadau rhwng eu gwaith a'r cyd-destun polisi hefyd i aros. Yn neilltuol, roedd yr achos yn *"dal yn ddilys"* ar gyfer cefnogaeth seilwaith a gyflwynwyd yn Y Trydydd Dimensiwn – Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol: *"i gefnogi twf a datblygiad gallu'r sector i gryfhau cymunedau lle a diddordeb,"*[16] a *"cynnal a gwella'r seilwaith presennol o gefnogaeth generig ac arbenigol sydd ar gael i'r trydydd sector a gweithio gyda'r seilwaith cefnogaeth hwn i helpu'r sector i gynyddu ansawdd a dibynadwyedd ei berfformiad, ac ymestyn ei effaith."*[17]

---

[16] Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Cynllun Sector Gwirfoddol. Tudalen iv.

[17] Tudalen v

4.5 Er y cydnabuwyd bod realaeth economaidd yn debygol o *“daro cefnogaeth i bob rhan o’r trydydd sector”* dadleuwyd y byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar godi arian yng Nghymru: *“Mae elusennau’n dal i orfod codi arian. Mae angen iddynt wneud hynny mewn ffordd fwy blaengar”.* Yn y cyswllt hwn credai’r IoFC ei fod mewn lle da fel rhan o *“ymateb cyllido’i wedi’i dargedu’n dda.”*

4.6 Yn neilltuol, credai’r IoFC y medrid cyflwyno achos dros barhau cyllid craidd o amgylch:

Gwerth am arian drwy ddarparu cyngor ansawdd uwch nag sydd efallai ar gael mewn man arall;

Creu canolbwynt cydnabyddedig yng Nghymru ac un pwynt cyswllt ar gyfer y rhai sy’n ceisio cefnogaeth gyda chodi arian, a fyddai’n rhoi ystyriaeth i dwf yn y ddarpariaeth gwasanaeth yma;

Dehongli a chefnogi gwaith y Bwrdd Safonau Codi Arian a datblygu Codau Ymarfer Codi Arian sy’n ffurfio pileri rheoleiddiol codi arian ar draws y Deyrnas Unedig;

Rôl yr IoFC mewn dehongli newidiadau ac effeithiau polisi ar lefel y Deyrnas Unedig yn ogystal â dynodi a lledaenu arferion da a ddatblygwyd y tu allan i Gymru, Ymhellach, dywedwyd bod cysylltiadau rhwng yr IoFC a’r IoFUK yn ehangach yn rhoi llwyfan i godwyr arian yng Nghymru sy’n sicrhau y gall ymgynghoriad a pholisi ar lefel y Deyrnas Unedig adlewyrchu anghenion Cymru;

Helpu grwpiau trydydd sector i gael mynediad i hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth ymarferol ac effeithiol ar gyfer codi arian a gyflwynir o fewn cyrraedd rhwydd gan hyfforddwyr, sy’n godwyr arian profiadol a hefyd wedi eu trwyddedu gan y Sefydliad;

Y ffaith na fedrai Llywodraeth y Cynulliad wneud y rôl hon ac nad oes dewis arall amlwg mewn darpariaeth codi arian arbenigol;

Dealltwriaeth yr IoFC o gymhlethdodau’r sector yn cynnwys dynodi’r rhai sy’n wynebu ‘rhwystrau mynediad’ neu a fyddai wedi ymbellhau, hyd yn oed wedi eu hesgeuluso, oherwydd pellter daearyddol, diffyg gwybodaeth, diffyg sgiliau.

Ymchwil bresennol - fel *Supportive To The Core* (2009) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Dyngarwch - sy'n sôn am rôl bwysig cyllid craidd.

4.7 Dangosodd cyfweliadau gyda rhanddeiliaid beth cefnogaeth dros achos yr IoFC. Roedd y sylwadau'n cynnwys *"gwybod beth i'w ddisgwyl yn ystod cyfnod na fedrir ei ddarogan"* a *"mae'r Sefydliad yn cynnig arbenigedd mewn codi arian sy'n meithrin teimlad o hyder yn ein plith ni fel codwyr arian".* Ymhellach: *"byddai'n siom colli'r pwynt cefnogaeth hwnnw ac yntau wedi ennill ei blwyf fel y pwynt gwybodaeth ar godi arian yng Nghymru yn fater o siom."*

4.8 Fodd bynnag, cododd rhai cyfweleion bryder yng nghyswllt:

P'un ai'r IoFC oedd y *"cyfrwng cywir"* ar gyfer darparu cefnogaeth codi arian;

Gallu'r IoFC yng Nghymru i ychwanegu gwerth: "*gan weithredu gyda'r gallu sydd ganddyn nhw, mae eu heffaith yn mynd i fod yn gyfyngedig iawn*".

Y 'darlun' gorlawn o gefnogaeth yng Nghymru - *"roedd fel, pwy ddylen ni fynd atyn nhw: Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wydden ni ddim. Mae'n ymddangos braidd yn ddidrefn."*

**Llwyddiant wrth gyflawni targedau a gytunwyd**

*Trosolwg*

4.9 Cafodd gwaith cyllid craidd yr IoFC ei fesur yng nghyswllt nifer o amcanion a thargedau a gytunwyd. Fel gyda'r CFiW, cafodd y cynnydd ar yr amcanion hyn ei fonitro drwy adroddiadau cynnydd chwe-misol a chyfarfodydd wyneb i wyneb cysylltiedig rhwng staff o Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r IoFC. Yn yr adran hon cyflwynwn ganfyddiadau'r cynnydd ar y targedau. Eto, dylid pwysleisio na chafodd y canlyniadau a gyflwynir yma eu dilysu'n annibynnol gan y tîm ymchwil.

*Amcanion*

4.10 Amcanion yr IoFC ar gyfer y rhaglen cyllid craidd seilwaith oedd:

Datblygu gwybodaeth, drwy hyfforddiant a dulliau i godi mwy o arian ar gyfer sefydliadau yng Nghymru;

Cysylltu codwyr arian a sefydliadau codi arian yng Nghymru;

Hyrwyddo a chynyddu rhoi effeithiol o ran treth yng Nghymru;

Hyrwyddo arfer gorau mewn codi arian yng Nghymru

*Llwyddiannau*

4.11 Gosodwyd mesurau allbwn a thargedau cysylltiedig ar gyfer pob un o'r amcanion hyn. Mae Ffigur 3 yn rhoi gwybodaeth ar gynnydd ar dargedau. Yn gyffredinol, mae'r canfyddiadau'n awgrymu fod yr IoFC wedi perfformio'n rhesymol dda, gyda thargedau ar gyfer presenoldeb mewn cynadleddau, hyfforddiant a seminarau'n cael eu cyrraedd yn gysurus. Roedd hyn yn cynnwys y gweithdai ar roi effeithiol o ran treth a gyflwynwyd mewn partneriaeth gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.[18]

4.12 Roedd peth diffyg mewn presenoldeb mewn cyfarfodydd rhwydweithio. Mae peidio rhoi ystyriaeth lawn i effaith cyflwyno digwyddiadau mewn ardaloedd llai poblog o Gymru er mwyn sicrhau lefelau da o orchudd daearyddol yn esboniad rhannol am hyn. Yn ychwanegol, roedd yn rhwydd i grwpiau trydydd sector yng ngogledd ddwyrain a de ddwyrain Cymru fynychu digwyddiadau a ddarparwyd gan yr Institute of Fundraising North West a'r Institute of Fundraising South West, ac mae'n amlwg iddynt wneud hynny.

4.1 3Yn nhermau arfer gorau cododd yr IoFC bryderon nad oedd y mesur targed erioed yn ymarferol nac o fewn cyrraedd. Caiff yr ymgynghoriad ar Godau Ymarfer ei reoli'n ganolog gan IoFUK. Mewn gwirionedd, mae adborth yn awgrymu mai ychydig o sefydliadau trydydd sector yn y Deyrnas Unedig sy'n rhoi adborth i brosesau ymgynghori a weinyddir gan IoFUK.

[18] Mae adroddiadau monitro cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys cyfanswm o darged o 100 yn mynychu'r gweithdai Rhoi Effeithol o ran Treth. Fodd bynnag, nid oedd data ar bresenoldeb ar gael ar gyfer pump (allan o saith) o weithdai blynyddol a gafodd eu harwain gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (yn hytrach na'r IoFC). Felly, defnyddiwyd amcan bras o 30 yn mynychu gan yr ymchwilwyr fel targed dirprwy ar gyfer yr IoFC yn y cyswllt hwn (2/7 x 100).

**Ffigur 3: Perfformiad ar dargedau cyllid craidd**

| Amcan | Allbwn Targed | Cyflawnwyd |
|---|---|---|
| Datblygu gwybodaeth, drwy hyfforddiant a dulliau i godi mwy o arian ar gyfer sefydliadau yng Nghymru. | Cynadleddau, Hyfforddiant a Seminarau.<br>2008/9 - 40 yn bresennol<br>2009/10 - 50 yn bresennol<br>2010/11 - 100 yn bresennol | Cynadleddau, Hyfforddiant a Seminarau<br>2008/9 - 53 yn bresennol<br>2009/10 - 82 yn bresennol<br>2010/11 - disgwyl 110 |
| Cysylltu codwyr arian a sefydliadau codi arian yng Nghymru | Cyfarfodydd rhwydwaith:<br>2008/09 – 150 yn bresennol<br>2009/10 - 200 yn bresennol<br>2010/2011 - 200 yn bresennol<br>E-gylchlythyrau<br>2008/09 – anfon at 600<br>2009/10 – anfon at 700<br>2010/2011 – anfon at 700 | Cyfarfodydd Rhwydwaith:<br>2008/9 - 61 yn bresennol<br>2009/10 - 122 yn bresennol<br>2010/11 - disgwyl 120<br>E-gylchlythyrau<br>2008/09 – anfon at 150<br>2009/10 – anfon at 700<br>2010/2011 – anfon at 843 |
| Hyrwyddo a chynyddu Rhoi Effeithiol o ran Treth yng Nghymru | Cyfarfodydd Rhwydwaith:<br>2008/09 - 30 yn bresennol<br>2009/10 - 30 yn bresennol<br>2010/2011 - 30 yn bresennol | 2008/9 - 34 yn bresennol<br>2009/10 - 35 yn bresennol<br>2010/11 - amcangyfrif 40 |
| Hyrwyddo arfer gorau mewn codi arian yng Nghymru | Ymatebion gan sefydliadau yng Nghymru i bob ymgynghoriad Cod Ymarfer:<br>2008/09 - 3 ymateb?<br>2009/10 - 3 ymateb<br>2010/2011 - 3 ymateb | 2008/09 - 0 ymateb<br>2009/10 - 0 ymateb<br>2010/2011 - 6 ymateb |

*Ffynhonnell: Cofnodion Monitro CFW*

**Cyllid ychwanegol a sicrhawyd**

4.14 Roedd mesur y cyllid ychwanegol a sicrhawyd gan fuddiolwyr tu allan i gwmpas amcanion cyllid craidd IoFC. Unwaith eto, mynegodd yr IoFC rwystredigaeth ar ba mor gymhleth yw llunio lefelau priodoliad: *“Mae’n anodd mynd yn ôl at elusen sydd wedi mynychu cwrs hyfforddi a gofyn beth ddaeth o hynny yn nhermau’r cyllid a godwyd. Mae cynifer o ffactorau yn gysylltiedig.”*

4.15 Fodd bynnag, gall yr IoFC gyfeirio at beth tystiolaeth anecdotaidd gan fuddiolwyr yn y cyswllt hwn, yn cynnwys:

> “[Yn dilyn y digwyddiad Cyfryngau Cymdeithasol] *fe wnaethon ni agor cyfrif Facebook a rydyn ni’n awr yn hysbysebu digwyddiadau codi arian ar hynny. Bu’r ymateb yn ardderchog. Cafodd gwerth o leiaf £1,000 o docynnau eu gwerthu drwy hyrwyddo ar-lein. Mae hynny’n £1,000 yn fwy nag y byddem wedi ei gael.”*

*"Y cwrs diwethaf y bûm arno drwy'r Sefydliad Codi Arian oedd cwrs Cymorth Rhodd* [Rhoi Effeithiol o ran Treth] *a heddiw fe wnaethom ni dderbyn siec am gymorth rhodd o'r gorffennol sydd wedi helpu i ariannu'r estyniad diweddaraf i'r safle cymunedol ..."*

*".. yn ddiweddar llwyddodd Hafan Cymru* [ar ôl mynychu'r gweithdy Rhoi Effeithiol o Ran Treth] *i godi'r swm y maent wedi'i godi gan gymaint â £1,000."*

4.16 Edrychodd y tîm ymchwil hefyd i ba raddau yr oedd yr IoFC yn medru ysgogi incwm ychwanegol ar gyfer ei weithgareddau craidd ei hun. Nodwyd yn flaenorol, yn ychwanegol at gyllid grant craidd Llywodraeth y Cynulliad, fod yr IoFC wedi manteisio o grant o £10,250 y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad (a roddwyd drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) i gyflwyno gweithdai ar Roi Effeithiol o ran Treth.

4.17 Mae'r IoFC hefyd yn derbyn incwm drwy ffynonellau eraill, ffioedd ar gyfer y cynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau rhwydwaith y mae'n eu trefnu, nawdd cysylltiedig â refeniw hysbysebu ac incwm arall megis llog banc.

4.18 Mae Ffigur 4 yn cyflwyno dadansoddiad o incwm yn ôl ffynhonnell. Gwneir cymhariaeth rhwng blwyddyn ariannol 2007/08 (y flwyddyn cyn y cyfnod cyllid craidd presennol) a'r cyfartaledd blynyddol dros y cyfnod cyllid craidd presennol (2008-11).

**Ffigur 4: Dadansoddiad Incwm - IoFC**

| **Mesur** | **2007/08 (blaenorol) (£)** | **Cyfartaledd Blynyddol 2008-11 (cyfredol) (£)** |
|---|---|---|
| Holl Gyllid Llywodraeth y Cynulliad (cyllid craidd ynghyd â grant Rhoi Effeithol o ran Treth drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) | 45,000 | 55,972 |
| Ffioedd Cynhadledd, Hysbysebion, Hyfforddiant a Rhwydweithio, Nawdd | 7,827 | 4,212 |
| Incwm arall (e.e. llog) | 283 | 84 |
| **CYFANSWM** | **53,110** | **60,268** |

Ffynhonnell: Data ariannol IoFC

4.19 Dengys Ffigur 4 nad yw CFiW ond wedi llwyddo i ysgogi £0.08 o incwm am bob £1 o gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad. Ymhellach, dengys y ffigur fod incwm o ffioedd, hysbysebion a nawdd wedi gostwng gan 46% o gymharu gyda chanlyniadau 2007/08, er cynnydd yng nghyfanswm cyllid Llywodraeth y Cynulliad [19].

**Effeithiolrwydd ac effeithlondeb**

4.20 Medrodd yr IoFC nodi nifer o elfennau oedd wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod cyllid craidd.

4.21 Roedd llawer o alw am leoedd mewn cynadleddau: *'Llawer o bobl, cyffro am bob cynhadledd."* Ymhellach: *"Yr hyn oedd y rhai'n bresennol yn ei fwynhau oedd cyfle i gwrdd ag eraill yn gwneud yr un math o waith, dysgu gan siaradwyr diddorol iawn a mynd â gwybodaeth gartref gyda hwy - taflenni a phethau. Roedden nhw hefyd yn gwerthfawrogi ein bod ni'n cael cynadleddau yn y gogledd yn ogystal ag yn y de".*

4.22 Roedd y dewis o bynciau a ddefnyddiwyd mewn cyfarfodydd rhwydwaith, seminarau, hyfforddiant a digwyddiadau yn boblogaidd gyda'r rhai a fynychodd: *"Fe gawson ni sgwrs ar 'Codi Arian o America'. Roedd hynny'n neilltuol o boblogaidd. Soniodd y cyflwynydd faint o bobl yn yr Unol Daleithiau oedd o linach Gymreig - ac felly'n ffynhonnell bosibl o godi arian - ond hefyd sut fyddai'r ffordd orau o gysylltu â'r bobl hyn i gefnogi elusennau yng Nghymru".* Roedd y digwyddiad ar Gyfryngau Cymdeithasol hefyd yn boblogaidd: *"Mae cynifer o bobl yn awr yn defnyddio Twitter, Facebook a llwyfannau eraill fel ei bod yn gwneud synnwyr i elusennau ymchwilio pa gyfleoedd sydd gan y dulliau hyn o gyfryngau ar gyfer codi arian".* Yn gyffredinol, *"Yr hyn gafodd ei gyfleu oedd bod pobl yn gwerthfawrogi'r digwyddiadau hynny oedd yn edrych ar godi arian o ongl newydd".*

[19] Gan y cafwyd y data ariannol ar ôl gorffen y gwaith maes, ni fu'n bosibl ymchwilio yn fanylach y rhesymau dros y gostyngiad tebygol mewn incwm o ffioedd, hysbysebu a nawdd.

4.23 Soniodd yr IoFC am fanteision bod yn rhan o sefydliad oedd yn gweithredu ar draws y Deyrnas Unedig, yn cynnwys:

Sut mae swyddfa'r DU yn cefnogi swyddfeydd yr Alban a Chymru gyda gwybodaeth ar ddatblygiadau mewn polisïau, rhaglenni a chyfreithiau llywodraeth ganolog: *"mae hyn yn rhoi rhybudd cynnar defnyddiol i elusennau gan roi mwy o amser iddyn nhw baratoi".* Mae hefyd elfen o *"ddehongliad, troi gofynion cyfreithiol yn ganllawiau arfer da";*

Gwefan IoFUK a ddaeth yn *"bwynt cyswllt cyntaf go iawn ar gyfer cyngor ar godi arian ar gyfer codwyr arian o bob rhan o Brydain";*

Llais i godwyr arian o Gymru mewn trafodaethau polisi yn y dyfodol am opsiynau ar lefel y DU dwy rôl partner strategol IoFUK;

Ffurfio rhaglenni, cyrsiau a hyfforddiant y medrir wedyn ei ymestyn yng Nghymru. Yn ystod y rhaglen cyllid craidd, er enghraifft, cafodd gweithdai rhoi effeithiol o ran treth eu cyflwyno mewn cysyltliad gyda thîm IofUK.

4.24 Fodd bynnag, credai'r IoFC ei bod yn addas cadw swyddfa neilltuol yng Nghymru oherwydd y *"cyd-destun gwahanol yng Nghymru".* Er enghraifft: *"Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg - sy'n troi o amgylch cyfieithu'r Codau Ymarfer i'r Gymraeg ac sy'n ddrud - yn rhywbeth rydyn ni wedi'i gyflawni."*

4.25 Soniwyd hefyd am ehangder y gorchudd - gyda chefnogaeth tu hwnt i'r aelodaeth: *"Yn Lloegr mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar wasanaethu'r aelodaeth. Yng Nghymru rydyn ni wedi ceisio a llwyddo i fynd ymhellach a chysylltu a chefnogi tu hwnt i'n haelodaeth."* Mae'r rhesymeg am hyn yn glir: mae gan Gymru lawer o elusennau bach ac mae llai elusennau bach yn llai tebygol o ymaelodi, er eu bod yn dal i fod ag anghenion codi arian. Fodd bynnag, y cafeat oedd bod y dull hwn yn golygu *"caiff ein hadnoddau eu lledaenu'n deneuach"*

4.26 Mae rôl yr IoFC hefyd yn ymestyn i weithgaredd cyfryngu. Teimlir fod codi arian wedi dod yn gynyddol anodd neu gyfyngedig ar draws rhai rhannau o'r Deyrnas Unedig oherwydd bod pobl wedi gwrthwynebu rhai dulliau, megis casglu o

ddrws i ddrws.[20] Mae gan yr IoFC rôl mewn achosion o'r fath. Yn gyntaf, drwy sicrhau fod polisi lleol yn adlewyrchu barn y trydydd sector yn ehangach ac yn ail drwy weithio gyda phartïon ar y ddwy ochr i ganfod cydbwysedd addas wedi'i wreiddio mewn arfer da.

4.27 Mae'r IoFC hefyd wedi cynnal adborth ansoddol ar bob digwyddiad a gyflwynodd. Mae'r canfyddiadau a ddangoswyd i'r ymchwilwyr yn dangos adborth cadarnhaol yn gyffredinol (yn cadarnhau barn yr IoFC yn hyn o beth). Yn neilltuol, dywedodd y rhai a fynychodd eu bod yn hoffi:

- Yr wybodaeth *"gyfoes";*
- Pynciau penodol o ddiddordeb e.e. gwybodaeth diogelu data, codi arian drwy gyfryngau cymdeithasol a'r cyflwyniad 'Codi Arian o America': *"calonogol a diddorol"'*
- Faint o wybodaeth y medrent fynd â hi gartref gyda hwy: *"Llawer o wybodaeth i'w dilyn i fyny";*
- Rhwydweithio a chwrdd â phobl newydd, syniadau newydd, rhannu syniadau a phroblemau;
- Datblygu ac ymgyrchu drwy gyfnodau anodd, cyrchu cronfeydd o bob ongl a hybu morâl.

4.28 Dangosodd cyfweliadau gyda buddiolwyr hefyd nifer o elfennau cadarnhaol yn cynnwys:

- ystod eang o siaradwyr gwadd mewn digwyddiadau gyda gwahanol gefndiroedd a gwahanol themâu i'w trafod;
- cyngor ymarferol: *"Yn rhy aml rydyn ni'n cael cysyniadau cyffredinol sy'n iawn ynddynt eu hunain ond nad ydyn nhw'n berthnasol yn benodol i Gymru. Mae digwyddiadau yn aml yn gweddu'r rhai sy'n codi arian yn Ne Ddwyrain Lloegr; does yna ddim llawer o filiwnêrs yng Ngogledd Cymru, cymharol ychydig o gwmnïau mawr sydd ganddon ni. Mae hynny'n golygu fod angen ffordd wahanol o gysylltu â phobl i godi arian. Mantais yr IoFC yw eu bod yn*

[20] Dywedodd yr IoFC fod Swydd Bedford yn enghraifft lle mae rheoliadau lleol yn awr yn gwahardd rhai dulliau o godi arian sy'n boblogaidd mewn mannau eraill. Yng Nghymru, bu'r IoFC yn ymwneud ag anghydfod o amgylch, er enghraifft, Her y Tri Chopa yn Eryri.

*cynnig cyngor sy'n ymarferol ac addas i sefyllfa go iawn codi arian yma yng Nghymru."*

Safon uchel y cyngor a roddwyd gan yr IoFC: *"mae'n gysur gwybod eich bod yn cael y cyngor gorau allan yna, gan bobl sy'n arbenigwyr nid mewn cefnogaeth gyffredinol ar gyfer sefydliadau fel ein sefydliad ni, ond sy'n arbenigwyr mewn codi arian yn benodol."*

4.29 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am effeithiau cadarnhaol ar *"safon y ceisiadau am grant", "safon ein cynigion i godwyr arian posibl"* a *"recriwtio a chadw gwirfoddolwyr".* Mae hyn yn cefnogi'r adborth astudiaeth ehangach IoFC gan rai a fynychodd ddigwyddiadau lle, yn andecotaidd, mae'r IoFC wedi cysylltu hyfforddiant gyda llwyddiant gyda chodi arian newydd.

*Gwendidau wrth Gyflenwi*

4.30 Nid oedd rhai elfennau yn cael cystal croeso gan fynychwyr digwyddiadau fodd bynnag, er bod sylwadau beirniadol bob amser yn cael eu cyflwyno mewn modd adeiladol, yn cynnwys:

*"Fe hoffwn i gael o leiaf un o'r cyflwyniadau yn Gymraeg"*

*"Mwy o ddigwyddiadau yn y Gogledd os gwelwch yn dda"*

*"Efallai gael gweithdai am godi arian cymunedol, gweithio gyda gwirfoddolwyr, sut i gysylltu â hwy a chymryd rhan mewn digwyddiadau."*

4.31 Dangosodd y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid hefyd rai gwendidau amlwg. Roedd rhai yn gymharol fân: *"Doedd fy enw ddim ar y rhestr bostio am yr ychydig fisoedd cyntaf, ond cafodd hynny ei gywiro mewn dim o dro."*

4.32 Roedd gwendidau eraill a nodwyd yn fwy adeiladol, gan ganoli ar yr angen am ddull mwy rhagweithiol a deinamig: *"Maent yn ymddangos yn gyson yn hytrach na deinamig".* Yn y cyswllt hwn medrai opsiynau ar gyfer 'gwneud mwy' efallai gynnwys defnyddio llwybrau rhwydweithio cymdeithasol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus ac arfer da mewn codi arian i weithwyr proffesiynol o fewn y trydydd sector. Ymhellach, medrai'r dull hwn *"gynyddu'n anuniongyrchol*

*bresenoldeb yr IoFC yng Nghymru heb orfod tyfu gormod yn nhermau gofynion ariannu a gorbenion.*"

4.33 Cododd yr IoFC bryder am linell sylfaen isel sgiliau a hyfforddiant codi arian yng Nghymru: *"Mae lefelau hyfforddiant yng nghyswllt codi arian yn is nag yn Lloegr. Mae diwylliant yn dal i fod sy'n dweud 'gall unrhyw un godi arian'. Nid yw'n cael ei gweld fel rôl arbenigol. Ond fyddech chi'n dewis unrhyw un i fod yn swyddog marchnata?"*

4.34 Roedd hefyd bryderon am y pwysau i sicrhau gwerth am arian yn erbyn natur fympwyol y trydydd sector ar draws Cymru: *"Mae gennym ni ymrwymiad i fod mor gynhwysol ag y medrwn. Ond mae poblogaeth denau mewn rhannau o Gymru yn cyfyngu'r nifer sy'n debygol o fynychu digwyddiadau - eto rydyn ni'n dal i orfod cynnal digwyddiadau yno".* Ymhellach, soniodd yr IoFC am feirniadaeth o'u penderfyniad i gynnal un digwyddiad yn yr Amwythig, ger y ffin rhwng Lloegr a Chymru: *"Y rheswm oedd y medrir cyrraedd Amwythig ar drên o Ogledd, De a Chanolbarth Cymru. Rydyn ni'n gweithio'n galed am agenda carbon isel ac roedd yn ymgyrch ddiffuant i gadw'r costau yn isel i'r rhai oedd yn mynychu. Ond doedd rhywun ddim yn hapus a dywedodd wrth Aelodau Cynulliad".* Medrid dadlau fod hyn yn awgrymu fod angen mwy o bwyslais yn y dyfodol ar hyfforddiant a lledaenu gwybodaeth ar-lein.

4.35 Cododd yr IoFC ddau bryder arall yng nghyswllt cysylltiadau â'r Deyrnas Unedig. Yn gyntaf, nid yw'r Bwrdd Safonau Codi Arian - yr asiantaeth hyd braich a grëwyd gan IoFUK - *"wedi bod mor llwyddiannus ag y dymunem iddo fod."* Cododd yr IoFC bryder yn neilltuol iddo gael ei staffio gan "*bobl rheoleiddio"* yn hytrach nag *"arbenigwyr codi arian neu hyd yn oed 'bobl elusennau'."* Yn gyffredinol arweiniodd hyn at i *"ychydig o gwynion gael eu cadarnhau"* Yn ail, os nad yw'r Swyddfa Cymdeithas Sifil yn adnewyddu rôl Partner Strategol yr IoFUK yna *"bydd llai o fudd i godwyr arian o gysylltiad y Deyrnas Unedig".*

4.36 Yr hyn ddaeth yn amlwg o'r cyfweliadau hefyd oedd y *"berthynas braidd yn gymhleth"* rhwng yr IoFC a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Derbyniodd CGGC gyllid o'r Gronfa Loteri Fawr i gynnal hyfforddiant ar godi arian, a gyflwynwyd drwy'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru. Roedd yn glir o'n trafodaethau gyda rhanddeiliaid fod peth tensiwn cystadleuol rhwng y ddau sefydliad yng nghyswllt cyflwyno hyfforddiant codi arian i'r trydydd sector yng Nghymru.

4.37 Yn Lloegr, nid yw'r Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol yn rhoi cyngor na hyfforddiant penodol ar godi arian. Yn hytrach, maent yn cyfeirio at y Sefydliad Codi Arian. Mae'r IoFC yn dadlau y dylid cael sefyllfa debyg yng Nghymru: *"Fe fydden ni'n dadlau y dylai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod yn cyfeirio ac nid yn cyflenwi."*

*Rheolaeth*

4.38 Er y pryderon hyn mae peth tystiolaeth o berthynas waith dda rhwng yr IoFC a sefydliadu cefnogaeth arall yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru: *"Rydyn ni wedi gweithio'n gadarnhaol gyda'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol. Cafodd y gweithdai Rhoi Treth yn Effeithiol eu cyflenwi mewn partneriaeth gyda nhw. Yr IoFC a roddodd yr holl ddeunydd codi arian sydd ar wefan y Cyngor. Rydyn ni'n diweddaru'r wybodaeth iddyn nhw ac os oes ganddyn nhw gwestiwn codi arian penodol, maen nhw'n ffonio'r sefydliad".* Yn yr un modd, *"Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweld y Sefydliad fel adnodd. Mae gennym gysylltiadau da gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol y Fro ac eraill ac wedi cynnal digwyddiadau yn eu safleoedd, oherwydd ei fod yn cadw'r pris i lawr".* Mae hefyd *"gysylltiadau da"* gyda'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru: *"Mae'r Prif Weithredwr yn aelod ac yn manteisio o'n gwybodaeth."*

4.39 Yn yr un modd, mae'r cyfweliadau'n dangos perthynas adeiladol rhwng yr IoFC a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydol y cyfnod ariannu craidd: *"Rydyn ni wedi gweithio'n dda gyda staff y Cynulliad. Rydyn ni'n cael cyfarfod gyda nhw bob chwe mis ac mae cysylltiad rhwng y cyfarfodydd hefyd."* Yr hyn a

groesawai’r IoFC yn arbennig oedd nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn rhy rhagnodol: *“Fe wnaethon nhw nodi meysydd yr oedd ganddyn nhw ddiddordeb arbennig ynddyn nhw e.e. agweddau blaengar, gorchudd da ar draws Cymru - ond caniatáu i ni fynd ymlaen ag ef”.* Hefyd, *“Mae Aelodau Cynulliad wedi siarad yn ein cynadleddau a rydyn ni wedi rhoi cyngor penodol i’r Gweinidog yng nghyswllt materion cysylltiedig â chodi arian.”*

4.40 Serch hynny, roedd canfyddiad fod yr IoFC wedi bod yn *“llai tyn ar faterion rheolaeth nag y medrent fod wedi bod”,* er eu bod yn cydnabod y medrai maint cyfyngedig y tîm esbonio llawer o hyn: *“mae’r ddau yn eithaf cynnil yn nhermau eu sylfaen costau a strwythur gorbenion, ond mae’r IoFC yn cael llai o gyllid yn gyffredinol.”*

4.41 Er y canfyddiadau bras gadarnhaol hyn yn nhermau cyflenwi, roedd ymdeimlad nad oedd yr IoFC *“erioed wedi mynd i’r afael yn llawn gyda’r monitro”.* Mae’n amlwg fod colli’r rheolwr prosiect yn gynnar yn y prosiect wedi effeithio ar fomentwm yn y cyswllt hwn - gan arwain at i fesurau a thargedau gael eu penderfynu ar ôl i’r prosiect gychwyn yn ffurfiol.

4.42 Yn ystod y cyfnod hwn dengys dogfennau monitro bryder Llywodraeth y Cynulliad am i ba raddau y medrir gwneud cysylltiadau clir rhwng amcanion a ddiffiniwyd a thargedau cysylltiedig â’r chwe thasg allweddol a ddynodwyd yn y cynllun busnes gwreiddiol a gyflwynwyd. Yn ychwanegol, teimlai Llywodraeth y Cynulliad y dylid rhoi mwy o bwyslais ar dargedau meintiadwy perthnasol lle’n briodol.

4.43 Wrth gwrs, roedd dwylo’r IoFC wedi eu clymu mewn llawer o ffyrdd. Roedd natur eu gwaith ariannu craidd arfaethedig bob amser yn mynd i fod wedi’i “*gryn bellter”* o’i effeithiau ar fuddiolwyr. Roedd peth rhwystredigaeth fod yn rhaid i fesurau targed fod yn bennaf â ffocws ar allbwn (yn hytrach na chanlyniad). Ar ôl dweud hynny, dylid pwysleisio y ceisiwyd cadw data canlyniadau drwy adborth o ddigwyddiadau ac adroddiadau astudiaeth achos. Mae’r canfyddiadau yn y cyswllt hwn yn gadarnhaol: soniodd mentrau cymdeithasol

oedd yn astudiaethau achos am welliannau yn y cronfeydd a godwyd a'r sgiliau a'r hyder i wneud mwy yn y dyfodol ac, yn hollbwysig, lunio cysylltiadau rhwng y llwyddiannau hyn a hyfforddiant yr IoFC. [21]

4.44 Dywedodd yr IoFC y gall cynlluniau y Sefydliad Codi Arian i ddatblygu eu darpariaeth hyfforddiant yn sylweddol yn y dyfodol gael effaith gadarnhaol ar werthuso eu gwaith yng Nghymru. Gobeithir y bydd data ar gael yn y tymor canol i'r hirdymor ar ddangosyddion megis *"cyflogau cysylltiedig ar gyfer staff gyda chymwysterau ardystiedig mewn codi arian o gymharu â rhai heb y cymwysterau hynny"* a *"perfformiad y sefydliadau hynny gyda staff gyda chymwysterau'r Sefydlliad Codi Arian'.*

4.45 Yn olaf, y canfyddiadau cyffredinol oedd bod yr IoFC yn gweithredu gyda *"Bwrdd safon uchel gyda llawer o feysydd o arbenigedd - amgylcheddol, meddygol/iechyd, y cyfryngau ac ati".* Fodd bynnag, mae maint y tîm IoFC yng Nghymru yn *"golygu bod llawer o waith a chyfrifoldeb yn disgyn ar y Cadeirydd"* - problem a waethygwyd ymhellach gan broblemau cydnabyddedig gyda throsiant staff: *"Mae nifer o staff yn y rôl arweiniol wedi mynd a dod. Caiff y broblem ei thanlinellu gan natur ran-amser y swydd."*

*Gwerth am arian*

4.46 Mae cyfyngiadau mesuriad ffurfiol yn glir yn nhermau gwerth am arian: mae agwedd yr IoFC at gefnogi seilwaith yn canolbwyntio ar ledaenu arfer da a 'sicrwydd ansawdd' ac mae'n anodd priodoli a rhoi gwerth i hyn yn nhermau canlyniadau i sefydliadau buddiolwyr.

4.47 Fodd bynnag, roedd y cyfweleion yn fras gefnogol o'r gwerth am arian a gynigid gan yr IoFC: *"Fe wnaethon ni dalu rhwng £10 a £50 i fynychu digwyddiadau, sydd tua iawn dwi'n meddwl"* ac *"mae cyrff eraill wedi costio llawer mwy a chynnig llawer llai o fudd".* Fodd bynnag, nid oedd ymatebwyr yn fodlon talu llawer mwy: *"Mae £50 tua'r uchafswm y byddwn i'n ei dalu o gofio am yr*

[21] Mae mwy o fanylion am y canfyddiadau yn nes ymlaen yn yr adran hon

*hinsawdd economaidd. Ar ôl hynny mae'n cychwyn mynd yn ddrud pan ychwanegwch y costau teithio."*

4.48 Soniodd rhanddeiliaid hefyd am fuddion llai diriaethol, er enghraifft: *"Rydyn ni'n weddol bragmatig; rwy'n siŵr y medren ni fod wedi cael cyngor yn y diwedd o leoedd eraill, ond a fyddai o'r un safon uchel? Mae bod â rhwydwaith cefnogaeth wedi ei sefydlu yn rhoi cysur i rywun."*

4.49 Ar drywydd tebyg, tynnodd yr IoFC sylw hefyd at eu rôl yn yr elfennau hynny oedd yn fwy anodd eu rhagweld megis cyngor yng nghyswllt trin achosion cam-drin codi arian a datrys anghydfod: *"Mae sgandalau am gam-drin y system yn yr Alban ar hyn o bryd. Dydyn ni ddim eisiau'r rheiny yng Nghymru os medrwn eu hosgoi. Yn ogystal â'r sgandal ei hunan, mae'r sylw yn y cyfryngau yn achosi difrod i'r holl sector elusennol sy'n dibynnu ar hyder y bobl sy'n cyfrannu yn y system y maent yn rhoi iddi".* Ond beth fu cyfraniad yr IoFC yn y cyswllt yma? *"Amhosibl ei fesur. Ond dydyn ni ddim wedi cael y sgandalau a gawson nhw yn yr Alban, sy'n un o'r ffeithiau 'angenrheidiol ond nid digonol' hynny. Ond mae ganddon ni berthynas dda gyda'r cyfryngau yng Nghymru felly os byddai achos yn digwydd, fe fydden ni o leiaf yn sicr o gael ymateb."*

**Enghreifftiau o arfer da**

4.50 Yng nghyswllt arfer da, ymddangosai fod y farn ymysg cyfweleion yn crynhoi o amgylch nifer o themâu penodol.

4.51 Ystyrid bod defnyddio **digwyddiadau, seminarau a chynadleddau** yn ffordd addas o sicrhau lledaenu gwybodaeth, cynyddu sgiliau ac *"adeiladu'r gymuned codi arian".* Mae codi arian yn cynnwys ystod eang o weithgareddau - post, ffôn, rhyngrwyd, drws i ddrws, digwyddiadau/gwyliau, codi arian o Ymddiriedolaethau, awdurdodau lleol ac ati. Mae angen dull hyblyg y medrir ei addasu i godi sgiliau ar draws y gwahanol feysydd hyn. Ymddengys fod cynadleddau, seminarau a digwyddiadau'n gweithio'n dda yn y cyswllt yma.

4.52 Fodd bynnag, ymddengys yn hollbwysig sicrhau fod **'ffit' rhwng cynadleddau, digwyddiadau a phynciau seminar ac anghenion penodol a'r cyd-destun ar gyfer codwyr arian yng Nghymru i sicrhau fod gweithgareddau yn berthnasol ac yn cael eu harwain gan alw.** Dylid teilwra digwyddiadau i roi ystyriaeth i'r cyd-destun ehangach, er enghraifft, o gofio am yr hinsawdd economaidd bresennol credir ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i 'gymryd gofal' o roddwyr presennol yn hytrach na cheisio canfod rhai newydd. Yn y cyswllt hwn, ystyriwyd y bu digwyddiad diweddar a gynhaliodd yr IoFC yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ar thema cadw neu mewn geiriau eraill *"edrych ar ôl eich rhoddwyr"* yn neilltuol o addas.

4.53 Mae cyflenwi digwyddiadau ar draws **meysydd pwnc blaengar** hefyd yn adeiladu diddordeb a hyder. Mae'r enghreifftiau hyd yma wedi cynnwys seminar *'Codi Arian o America*' yr IoFC a digwyddiadau hyfforddiant eraill yn ymwneud â defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer codi arian. Yn yr un modd, medrid hefyd annog dulliau blaengar o godi arian, er enghraifft, cefnogi mwy o gydweithio rhwng codwyr arian megis cyflenwi digwyddiadau ar y cyd.

4.54 Ymddengys fod y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adolygiad hwn hefyd yn dangos arwyddocâd **gwasanaeth ansawdd uchel, yn pwysleisio lefel uchel o arbenigedd.** Mae gwella ansawdd codi arian yn nod i gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal â chynyddu sgiliau, gall hyn gyfrannu'n sylweddol at lefelau hyder o fewn y sector codi arian yng Nghymru, gydag effeithiau taro-ymlaen ar arloesedd a ffordd o feddwl 'gallaf'. Ymddengys fod y Sefydliad mewn lle da yn y cyswllt hwn: *'Os yw rhywun eisiau cyngor ar roi effeithiol o ran treth, yna medrwn roi arbenigwr sydd wedi dweud wrth Drysorlys y DU am y gyfraith ac arfer da ar y pwnc hwnnw. Felly dehongliad fydd eu cyngor ac ni fydd wedi'i seilio ar 'dyma'r hyn rwy'n credu y dylech fod yn ei wneud' ond yn hytrach "dyma wnaethon ni gytuno gyda'r Trysorlys yr wythnos ddiwethaf.'*

**Barn ar drefniadau cyllid ar gyfer y dyfodol**

*Amcanion ar gyfer y dyfodol*

4.55 Er tystiolaeth o gynnydd defnyddiol, mae'r IoFC yn parhau'n glir fod llawer ar ôl i'w wneud yng Nghymru: "*rydyn ni'n credu fod peth ffordd i fynd o hyd wrth helpu sefydliadau gwirfoddol i ddod yn fwy cynaliadwy. Maen nhw wedi dod yn llai dibynnol ar grantiau dros gyfnod er bod angen parhau â'r cynnydd yma."*

4.14 Yn neilltuol, datgelodd y cyfweliadau nifer o themâu sy'n debygol o fod yn sail i weithgaredd y Sefydliad Codi Arian yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig yn y dyfodol yn cynnwys:

Sicrhau fod codi arian yn y Deyrnas Unedig yn dod yn fwy tryloyw ac atebol: *"Mae rhoddwyr eisiau hyn, maen nhw eisiau gwybod fod eu cyllid yn cael ei ddefnyddio";*

Sicrhau pwyslais ar ofal rhoddwyr: *"Dylai lefelau gofal rhoddwyr (yr hyn a alwn yn 'stiwardiaeth') hefyd gael ei fesur. Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd y gwasanaeth a gaiff cyllidwyr ond hefyd fod cyswllt/adeiladu perthynas parhaus a 'gofal ar ôl cyfrannu'."*

Datblygu arbenigedd y Sefydliad ar draws y Deyrnas Unedig: *"Mae cyfeiriad clir yn 'Building a Stronger Civil Society' at gefnogi'r rhai sy'n cynnig cyngor arbenigol ar godi arian - felly arbenigol nid cyffredinol."*

Mae adeiladu ymddiriedaeth yn y broses godi arian (ar amser o galedi ariannol) drwy godi safonau yn bwysicach nag erioed: *"Bydd hyfforddiant ansawdd uchel a gwaith datblygu proffesiynol parhaus yn hollbwysig yn y cyswllt hwn."*

Cryfhau'r 'gymuned' codi arian: *"Peidiwch â thanbrisio pwysigrwydd hyn. Mae'n rhywbeth y mae'r bobl sy'n mynychu ein digwyddiadau yn sôn amdano dro ar ôl tro."*

4.57 Yn nhermau cynhyrchu incwm yn y dyfodol, mae'r IoFC yn glir am yr angen i ddefnyddio cyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad: *"Dydyn ni'n cael dim byd gan Institute of Fundraising UK. Daw 85% o'n hincwm o'r grant craidd."*

4.58 Fodd bynnag, fel *"corff cenedlaethol datblygu proffesiynol parhaus"* y sector codi arian, mae cynlluniau presennol y Sefydliad yn cynnwys ymestyn darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant yn sylweddol ar draws y Deyrnas Unedig. Credir y bydd y *"llwybr gyrfa"* hwn yn rhoi cyfleoedd masnachol sylweddol yng Nghymru yn gysylltiedig gyda hyfforddiant am gymwysterau ffurfiol, datblygiad proffesiynol parhaus a mentora cysylltiedig. Yn hyn o beth byddai'r IoFC yn edrych ar adeiladu ar gysylltiadau sefydledig gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol yn ogystal â datblygu cysylltiadau newydd gydag addysg uwch.

4.59 Ymhellach mae'r IoFC yn optimistaidd am y galw: *"Rydyn ni'n cael mwy o bobl yn dod i'n hyfforddiant nag oeddem ddwy flynedd yn ôl. Ar draws y Deyrnas Unedig, mae'r Sefydliad yn gweld galw uwch na'r disgwyl ar eu cyrsiau hyfforddiant, er enghraifft, ar gyfer rhoi effeithiol o ran treth. Felly ymddengys fod archwaeth allan yna ar gyfer hyfforddiant."*

*Gostyngiadau cyllid sector cyhoeddus*

4.60 Mae'r IoFC yn parhau'n weddol bragmatig yn nhermau trefniadau ariannu craidd ar gyfer y dyfodol. O gofio am raddfa debygol toriadau, mae derbyniad y bydd angen i ddarparwyr cymorth gymryd peth o'r *"baich"* drwy wella cynhyrchu incwm. Yn y cyswllt hwn, ymddengys fod cynnal mwy o ymchwil manwl i hyblygrwydd pris penodol ar gyfer gwasanaethau IoFC yn gam cynnar addas.

4.61 Wrth ochr y bragmatiaeth hon mae consyrn gwirioneddol y bydd *"cyllid yn gostwng gan ganran rhy fawr".* Yn neilltuol, teimlwyd fod presenoldeb y Sefydliad yng Nghymru eisoes yn weddol fach, ac na fyddai'n rhwydd sicrhau gostyngiadau. Byddid hefyd yn teimlo effeithiau eraill: *"rydyn ni'n cynnal peth hyfforddiant yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Gyda phwyslais tebygol yn y*

*dyfodol ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus, bydd cael sylfaen hyfforddiant ar gael yn ddefnyddiol ar gyfer cynhyrchu incwm ffi net."*

4.62 Mae hefyd ansicrwydd presennol am y cyllid craidd sydd ar gael i'r Sefydliad Codi Arian (DU) gan Swyddfa Cymdeithas Sifil y Deyrnas Unedig. Mae'r Sefydliad yn derbyn £150,000 y flwyddyn ar hyn o bryd er bod cyhoeddiad diweddar yn awgrymu y caiff nifer y partneriaid craidd ei ostwng *"o tua 40 i 17."*

*Trefniadau ar gyfer y dyfodol*

4.63 Yn gyffredinol, mae'r IoFC yn ystyried fod cefnogaeth i godwyr arian yng Nghymru *"yn bwysicach nag erioed".* Maent yn sôn am fregusrwydd cymharol y trydydd sector yng Nghymru: *"O'r wladwriaeth y daw 40-45% o gyllid elusennau yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu gyda bron 35% yn Lloegr."*

4.64 Fodd bynnag, gyda'r drafodaeth bresennol wedi'i chyflwyno mewn iaith effeithiolrwydd, medrid holi i ba raddau y mae'r IoFC yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd am effaith eu gwasanaethau. Mae'r IoFC yn parhau'n gadarn ar y pwynt yma: *"Cawsom adborth cadarnhaol. Mae perygl mewn mynd yn rhy bell gyda'r agenda canlyniadau. Drwy ddiffiniad, bydd cefnogaeth seilwaith rai camau ymaith o effeithiau terfynol."*

4.65 Yn nhermau opsiynau eraill ar gyfer ariannu yn y dyfodol, cododd hysbyswyr allweddol y syniad o symud tuag at fodel *"talu wrth fynd".* Byddai hyn yn golygu comisiynu - drwy gaffaeliad ffurfiol - seminarau a digwyddiadau penodol sy'n anelu i rannu arfer da mewn codi arian gydag ymarferwyr trydydd sector yng Nghymru. Mae'n amlwg y byddai gan yr opsiwn yma oblygiadau sylweddol i'r IoFC yn ei ffurf bresennol - er y dywedwyd nad yw'r IoFC bob amser wedi bod â swyddfa gyda staff yng Nghymru, ac *"mae'n debygol y medrai gwaith yr IoFC barhau, er gyda llai o acen Gymreig ar eu gwaith".* Ymhellach, byddai angen cymryd penderfyniadau *"os a sut"* yng nghyswllt *"rôl eiriolaeth ehangach"* yr IoFC yn cynnwys yr opsiwn o sefydliadau cefnogaeth eraill yng Nghymru yn gwneud y gwaith yma.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

5.1 Yn yr adran hon deuwn â'r prif ganfyddiadau ynghyd. Rhoddodd yr ymchwil dystiolaeth ddiddorol am yr hyn a gyflawnodd gwaith cyllid craidd seilwaith yng Nghymru. Er fod y fethodoleg ymchwil yn gyfyngedig, mae canfyddiadau'r cyfweliadau, yn gysylltiedig ag adborth eilaidd, yn rhoi casgliadau ac argymhellion defnyddiol er mai rhai arwyddol ydynt.

***"Adolygu'r rhesymeg bresennol a pharhaus am ariannu'r sefydliadau a enwir".***

5.2 Yn nhermau rhesymeg bresennol a pharhaus, ymddengys fod y canfyddiadau yn dangos 'angen' parhaus am gefnogaeth codi arian o fewn y trydydd sector yng Nghymru. Yn arbennig, credid bod sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru yn dal i lusgo ar ôl eu cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar nifer o ddangosyddion allweddol yn cynnwys sgiliau codi arian, hyfforddiant a gyrchwyd a llwyddiant cyffredinol wrth ymgysylltu ag unigolion preifat, busnesau ac ymddiriedolaethau. Medrodd y ddau sefydliad a dderbyniai gyllid craidd gyflwyno achosion grymus a fyddai'n sylfaen i ac yn cefnogi parhad eu cyllid craidd yn y dyfodol. Ymhellach, derbyniwyd yn gyffredinol gyda'r toriadau arfaethedig, bod yr angen i ysgogi cronfeydd o ffynonellau heb fod yn rhai cyhoeddus yn ychwanegu mwy o bwysau (a brys) i'w hachos.

5.3 Yn llai clir oedd p'un oedd y cyd-destun polisi presennol yn cefnogi parhad cyllid craidd, er bod hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu cyfyngiad yr adolygiad graddfa fach hwn.

**5.4 Argymhelliad 1: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr angen am barhau cefnogaeth seilwaith i'r trydydd sector i alluogi sefydliadau gwirfoddol a cymunedol i amrywio eu sylfaen cyllid.**

***"Adolygu llwyddiant y sefydliadau a gyllidir wrth gyflawni'r amcanion a gytunwyd".***

5.5 Dangosodd yr IoFC berfformiad da ar fesurau targed a gytunwyd gyda'r CFiW yn rhagori yn sylweddol ar dargedau. Fodd bynnag, roedd yn glir o'r canfyddiadau fod gwaith cyllid craidd CFiW yn haws na gwaith yr IoFC i'w 'drosi' yn fesurau a thargedau seiliedig ar ganlyniadau na gwaith.

5.6 Ymhellach, mae'r canfyddiadau'n awgrymu fod y CFiW yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu is-amcanion cynhwysfawr (er anffurfiol) i gyfeirio cynnydd. Yn hyn o beth, os yw cyllid craidd yn parhau, medrai'r IoFC edrych yn y dyfodol i roi mwy o fanylion ar agweddau ehangach eu gwaith. Er enghraifft, ymestyn yr 'astudiaethau achos' i gynnwys achosion lle mae'r IoFUK wedi rhoi cefnogaeth benodol i'r IoFC.

**5.7 Argymhelliad 2: Bod cyllid y dyfodol (dan ba bynnag fformat) yn cael ei gysylltu â mesurau a thargedau clir a chadarn a gytunwyd cyn cychwyn y cyfnod cyllido a'i feincnodi yng nghyswllt perfformiad cymharol mewn mannau eraill.**

***"Adolygu swm a ffynonellau cyllid y mae pob un o'r sefydliadau wedi ei sicrhau yn ychwanegol at gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i gefnogi eu gwaith".***

5.8 Ni chanfuwyd fod gwaith cyllid craidd y ddau sefydliad yn gyffelyb o ran i ba raddau yr oeddent yn amrywio eu cyllid eu hunain ac yn defnyddio'r cyllid craidd i ysgogi cyllid ychwanegol i'r sefydliadau yr oeddent yn eu cefnogi.

5.9 Dadleuodd yr IoFC y dangosid manteision ei waith yn llwyddiant y rhai y rhoddodd gefnogaeth iddynt ac nad oedd dull gwerthuso arddull effaith yn gweddu i'w bwyslais ar ledaenu arfer da, hyrwyddo a chanllawiau. Ni fedrid felly wneud unrhyw amcangyfrif, tu hwnt i dystiolaeth anecdotaidd, o'r cyllid a ysgogwyd i'r sector yn ei gyfanrwydd fel canlyniad i weithgareddau IoFC.

5.10 Yn nhermau cynaliadwyedd, dangosodd y canfyddiadau mai dim ond £0.08 ychwanegol ar gyfer pob £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer

gweithgareddau mewnol/craidd yr oedd yr IoFC yn ei gynhyrchu. Mae hyn yn ostyngiad o £0.18 y £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad ym mlwyddyn ariannol 2007/08. Ymhellach, mae'r incwm o ffynonellau masnachol - ffioedd, hysbysebu a nawdd - wedi gostwng gan 46% o gymharu gyda chanlyniadau 2007/08, er cynnydd yng nghyllid Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol.

5.11 O gofio fod yr aelodaeth ar lefel y Deyrnas Unedig yn cynnwys rhai o elusennau mwyaf y DU, mae diffyg unrhyw gyfraniad o ffioedd aelodaeth i weithrediadau IoFC yn amlwg.

5.12 Mewn gwrthgyferbyniad, medrodd CFiW ddangos enillion uwch na'r targed yng nghyswllt cyllid a ysgogwyd - er ei bod yn rhaid cydnabod, yn wahanol i'r IoFC, mai holl ddiben CFiW yw cynyddu llif cronfeydd i mewn a thrwy'r sefydliad er mwyn cynnal cyfraniadau i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad £35,000 o gyllid seilwaith i CFiW ym mlwyddyn ariannol 2007/2008. Roedd cyfanswm y grant a ddosbarthwyd gan CFiW i grwpiau trydydd sector yn y flwyddyn ariannol honno tua £800,000. Ar gyfer cyfnod 2008 i 2011, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid craidd blynyddol o tua £61,500. Y grant blynyddol cyfartalog dros y cyfnod 2008 i 2011 oedd £1.4 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 75% ar ffigur 2007/08.

5.13 Yn nhermau ychwanegedd, nid oedd yn glir beth fyddai cyfanswm grant blynyddol CFiW wedi bod heb gyllid Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, yn arwyddol, mae'r cyllid craidd blynyddol **ychwanegol** (tua £31,000) a roddwyd i CFiW yn dangos enilliad ychwanegol o £18.35 am bob £1 o gyllid craidd gan Lywodraeth y Cynulliad.

5.14 Fodd bynnag, llwyddodd CFiW hefyd i ddefnyddio cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i symud tuag at fwy o gynaliadwyedd. Dros y cyfnod cyllid craidd ysgogodd y CFiW £3.10 o incwm ychwanegol ar gyfer gweithgareddau

mewnol/craidd am bob £1 o gyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad.[22] Ymhellach, dengys y canfyddiadau fod y ffioedd rheoli wedi cynyddu'n sylweddol o gymharu gyda chanlyniadau 2007/08. Fodd bynnag, dylid nodi cyn y cyfnod cyllid craidd (ym mlwyddyn ariannol 2007/08) i CFiW ysgogi £3.97 o incwm ychwanegol am bob £1 o gyllid Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn golygu y bu CFiW yn llai effeithiol wrth gynhyrchu incwm gweithgaredd mewnol/craidd ychwanegol yn ystod y cyfnod cyllid craidd presennol.

5.15 **Argymhelliad 3: Dylai unrhyw gytundebau ar gyfer cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol gynnwys mesurau penodol yn anelu i sicrhau ffrydiau incwm mwy cytbwys ac amrywiol ar gyfer y ddau sefydliad dan sylw.**

***"Ffurfio barn ar effeithiolrwydd ac effeithioldeb gweithgaredd a gyllidir gan Lywodraeth y Cynulliad o fewn y sefydliadau a enwir wrth gyfrannu at waith ehangach Llywodraeth y Cynulliad o fewn y maes polisi"* a *"Nodi enghreifftiau o arfer da neu fel arall yn narpariaeth gwaith y sefydliadau a gyllidir."***

5.16 Nododd y data ymchwil sylfaenol ac eilaidd nifer o elfennau cadarnhaol yn y rhaglen cyllid craidd.

5.17 Roedd gwaith cyllid craidd yr IoFC yn neilltuol o effeithiol gyda:

- Defnyddio cynadleddau, hyfforddiant a digwyddiadau rhwydweithio fel dull o ddod â chodwyr arian ynghyd;
- Darparu hyfforddiant a phynciau trafod blaengar yn y gwahanol ddigwyddiadau gan gydnabod cyd-destun ac anghenion penodol codwyr arian yng Nghymru;
- Darparu gwybodaeth ymarferol a chyfoes;
- Cyflenwi dull cynhwysol: rhoi cefnogaeth i aelodau a rhai heb fod yn aelodau fel ei gilydd;

[22] Nid yw hyn yn berthynas achosol yn unig gan y bydd 'incwm ychwanegol' a dderbyniwyd dros y cyfnod cyllid craidd (i raddau bach) hefyd yn cyfeirio at weithgareddau blaenorol e.e. crynhoi'r gwaddol cyn Ebrill 2008.

Ehangder cwmpas yn cynnwys eu gwaith ehangach yn rhoi cyngor, gwybodaeth ac arfer da;

Cynnig gwasanaeth ansawdd uchel, yn tanlinellu arbenigedd.

5.18 Roedd elfennau effeithiol gwaith cyllid craidd CFiW yn cynnwys:

Gweithio o fewn maes arbenigol clir a diwallu anghenion clir a ddynodwyd yng Nghymru;

Y gallu i gysylltu ar lefel leol yn cynnwys cefnogi'r grwpiau cymunedol hynny sydd *“bellaf i ffwrdd”;*

Cefnogi rhoddwyr posibl i ddynodi grwpiau cymunedol a mentrau trydydd sector addas i'w cefnogi;

Y rôl mewn ysgogi cronfeydd preifat yn cynnwys o'r tu allan i Gymru;

Yr hylifedd a ddaw i'r broses codi arian yng Nghymru gan gysylltu ‘rhoddwyr’ gyda ‘gweithredwyr’ drwy ddull aml-ffynhonnell, hyblyg o ledaenu grantiau;

Lefel yr arbenigedd o fewn y sefydliad wedi'i seilio ar achrediad sicrwydd ansawdd a chymhwyster codi arian staff allweddol;

Datblygu model Cronfeydd Ardal effeithiol fel dull o ehangu a thyfu CFiW ar draws Cymru.

5.19 Yn nhermau gwendidau mewn darpariaeth, y cefndir hanesyddol yw un o anhawster mewn sefydlu sefydliad cymunedol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu y medrai'r CFiW fod wedi bod yn fwy effeithiol pe byddid wedi gwneud newidiadau yn gynharach ar lefel Bwrdd.

5.20 Ar gyfer yr IoFC rhaid ystyried awgrymiadau ar gyfer gwella megis yr angen am *“ddull mwy deinamig”* yn erbyn cyfyngiadau'r trefniadau adnoddau presennol (ac yn neilltuol heriau yng nghyswllt natur wasgaredig sefydliadau trydydd sector - ac felly ddigwyddiadau IoFC - ar draws Cymru). Fodd bynnag, medrid bod wedi gwneud mwy i “dynhau” trefniadau monitro prosiect a defnyddio adnoddau aelodau.

5.21 Yn fwy cyffredinol, roedd y cyd-destun ar gyfer yr IoFC yn un o bryder am:

- Lefelau llinell sylfaen isel sgil codi arian, hyfforddiant a'r "diwylliant dysgu" yng Nghymru;
- Y potensial ar gyfer dyblygu rhwng gweithgareddau'r IoFC a gweithgareddau eraill yng nghyswllt hyfforddiant codi arian, yn neilltuol gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol;
- Hyfywedd IoFC drwy weithredu o dîm mor fach yng Nghymru.

**5.22 Argymhelliad 4: Dylai unrhyw drefniadau cyllid craidd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r ddau sefydliad yn y dyfodol roi ystyriaeth i gryfderau, gwendidau a'r arfer da a nodwyd yn ystod yr adolygiad. Dylai hyn gael ei gynnwys yn yr amcanion a'r dangosyddion perfformiad a osodir mewn unrhyw drefniadau cytundeb cyllid craidd yn y dyfodol.**

***"Gwneud argymhellion ar drefniadau cyllid y dyfodol ar gyfer cefnogaeth seilwaith. Dylai hyn fod yn seiliedig ar y canfyddiadau ymchwil ac ystyriaeth o opsiynau cyllido yn cynnwys caffael gwasanaethau a gontractiwyd."***

5.23 Cefndir yr adolygiad yw toriadau ar y gwell mewn cyllid cyhoeddus trydydd sector ar draws y Deyrnas Unedig. Oherwydd hyn, gall fod yn naturiol i Lywodraeth y Cynulliad gwestiynu pa effaith y medrai lefelau bach o gyllid craidd - thimau bach cyllid craidd - ei gael ar dirlun y trydydd sector yng Nghymru. Ymhellach, os derbynnir yr angen am gefnogaeth seilwaith codi arian, yna gall fod yn ddilys i Lywodraeth y Cynulliad ddymuno ymchwilio os medrid gwneud hyn mewn ffyrdd mwy cost-effeithiol drwy gytundebau ariannu eraill sy'n bodoli eisoes.

5.24 Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn nodi nifer o risgiau i'r opsiwn hwn. Mae'r canfyddiadau'n dangos lefel uchel o foddhad gyda gwaith CFiW a'r IoFC. Ymddengys bod eu harbenigedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac mae gan y CFiW yn neilltuol faes arbenigedd unigryw.

5.25 Yn achos y CFiW, dangoswyd perfformiad cryf yn ysgogi cronfeydd ychwanegol (heb fod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) hefyd. Gyda llwyddiannau cynnar ychwanegol ymestyn eu model Sail Ardal, mae hyn i gyd yn rhoi dadl gref dros gadw cyllid craidd CFiW, er ei bod yn debygol y medrid ymdopi gyda gostyngiadau bach mewn cyllid craidd heb effeithio gormod ar berfformiad a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

5.26 Yng nghyswllt yr IoFC bu'n llai rhwydd cysylltu cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad gyda chanlyniadau ac effeithiau penodol, yn cynnwys cronfeydd ychwanegol a ysgogwyd a, gan fod yr IoFUK yn sefydliad aelodaeth, mae'r gyfran uchel iawn o gyfanswm cyllid yr IoFC a ddaw o gyllid craidd yn fater o gonsyrn. Ar yr un pryd, yn rhannol oherwydd y diffyg cyllid ychwanegol yma, mae'r IoFC yn gweithredu gydag ychydig iawn o adnoddau staff a byddai hyd yn oed ostyngiadau bach iawn i'w cyllid craidd yn cwestiynu hyfywedd dull cyflenwi presennol yr IoFC. Ymhellach, mae swyddogaethau craidd heb fod yn derbyn adnoddau digonol yn annhebyg o ychwanegu llawer o werth i'r trydydd sector yng Nghymru.

5.27 Mae'n amlwg fodd bynnag, y credir fod cynlluniau presennol yr IoFC ar gyfer ehangu eu hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a darpariaeth cymwysterau yn helaeth (drwy'r IoFC) yn cyflwyno rhai cyfleoedd. Yn y cyswllt hwn gall Llywodraeth y Cynulliad ddymuno ystyried parhad cyllid craidd yn gysylltiedig gyda gwelliannau amlwg mewn lefelau presennol o incwm heb fod gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd ystyried yn ofalus iawn aliniad posibl unrhyw gynnig estynedig gan yr IoFC gyda hyfforddiant codi arian a gwaith meithrin datblygu sy'n bodoli eisoes a gaiff ei wneud gan sefydliadau eraill yng Nghymru i osgoi unrhyw risg cystadleuaeth neu ddyblygu.

5.28 Fel dewis arall, medrid rhoi ystyriaeth i fodel "talu wrth fynd" ar gyfer prynu hyfforddiant, digwyddiadau rhwydwaith, cynadleddau a gweithgareddau eraill fel sy'n addas. Medrid cyflenwi hyn drwy gontract fframwaith wedi ei dendro.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth y Cynulliad barhau cyllid craidd ar gyfer CFiW, yn gysylltiedig gyda chynnydd parhaus ar adeiladu cyfanswm cronfeydd gwaddol ac ar adeiladu cynaliadwyedd hirdymor y sefydliad.**

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried yn ofalus os medrir cyfiawnhau parhau cyllid craidd i'r IoFC yng ngoleuni blaenoriaethau sy'n cystadlu. Pe byddai Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu parhau i roi cyllid craidd i'r IoFC, dylai ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gynyddu'r gyfran o'i gostau craidd a ddaw o refeniw masnachu (h.y. codi ffioedd am rai o'i wasanaethau) a thrwy danysgrifiadau aelodaeth (un ai drwy danysgrifiadau IoFUK neu drwy ofyn i aelodau yng Nghymru gefnogi swyddfa Cymru). Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu parhau i roi cyllid craidd i'r IoFC, dylai hyn fod ar sail tapr, a thros gyfnod, dylai bod disgwyl i'r sefydliad gynyddu ffynonellau refeniw eraill i sicrhau portffolio incwm mwy cytbwys.**

**Argymhelliad 7: Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu peidio parhau i roi cyllid craidd i'r IoFC, dylai ymchwilio dulliau eraill i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau penodol i gefnogi datblygiad proffesiynol codwyr arian trydydd sector yng Nghymru. Medrir mynd â hyn rhagddo drwy:**

a) **caffaeliad agored ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau fel a phan y caiff anghenion penodol eu dynodi a bod galw digonol yn bodoli; neu**
b) **sefydlu (drwy gaffaeliad agored) fframwaith galw-lawr o ddarparwyr posibl y medrid ei ddefnyddio i gyflenwi digwyddiadau a gweithgareddau datblygu'n gysylltiedig â chodi arian ar gyfer y trydydd sector. Byddai angen i'r opsiwn hwn ddatblygu rhaglen waith i'r dyfodol o weithgareddau tebygol i helpu llywio a bod yn sylfaen i baramedrau'r fframwaith galw-lawr.**